# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 7 Hydref 2021

Amser: 11.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPlant@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

## Fel y cytunwyd yn y cyfarfod ar 23 Medi, bydd eitemau 1 a 4 yn cael eu cynnal yn breifat

## Rhag-gyfarfod preifat

(11.00 - 11.15)

## 1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 - trafod yr adroddiad drafft

(11.15 - 11.30) (Tudalennau 1 - 9)

**Dogfennau atodol:**

Gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg

Papur Preifat 1 - Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

## 2 Blaenoriaethau i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - strategaeth ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

(11.30 -11.45) (Tudalennau 10 - 17)

**Dogfennau atodol:**

Papur Preifat 2 - Cynllun Ymgysylltu ynghylch

## 3 Trafod dull cynllunio strategol y Pwyllgor

(11.45 – 12.00) (Tudalennau 18 – 33)

**Dogfennau atodol:**

Papur Preifat 3 – Y dull o ran cynllunio strategol

## 4 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

(12.00 – 12.15) (Tudalennau 34 – 44)

**Dogfennau atodol:**

Papur Preifat 4 – Hydref 2021 – Blaenraglen Waith

Gohebiaeth gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

## Cinio

(12.15 – 12.50)

## Rhag-gyfarfod preifat

(12.50 – 13.00)

## 5 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.00)

## 6 Sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

(13.00 – 14.30) (Tudalennau 45 – 103)

Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Lynne Neagle AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Dr Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol

Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru

Claire Bennett, Cyfarwyddwr, Yr Adran Cymunedau a Threchu Tlodi

Tracey Breheny, Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed Adran

Irfon Rees, Cyfarwyddwr Iechyd y Boblogaeth

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Papur 1 - Tystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru

## 7 Papurau i'w nodi

(14.30)

**7.1 Blaenraglen waith y Pwyllgor**

(Tudalennau 104 - 105)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Cadeirydd at y Llywydd - CYPE(6)-03-21 - Papur i'w nodi 1

**7.2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16**

(Tudalennau 106 - 108)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg - CYPE(6)-03-21 - Papur i'w nodi 2

**7.3 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16**

(Tudalennau 109 - 110)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg - CYPE(6)-03-21 - Papur i'w nodi 3

**7.4 Cytundebau rhyngwladol**

(Tudalennau 111 - 112)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - CYPE(6)-03-21 - Papur i'w nodi 4

**7.5 Cytundebau rhyngwladol**

(Tudalennau 113 - 114)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - CYPE(6)-03-21 - Papur i'w nodi 5

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a'r cyfarfod cyfan ar 18 Hydref

(14.30)

## 9 Trafod y dystiolaeth o’r sesiwn graffu gyda’r Gweinidogion

(14.30 - 14.45)

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Eitem 1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Ein cyf JMEWL/2376/21

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

1 Hydref 2021

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 24 Medi, ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 Llywodraeth y DU (y "Bil"). Rydych yn codi nifer o gwestiynau yn ymwneud â darpariaethau penodol yn y Bil, ac rwy'n ymateb iddynt isod.

**Cymalau 1 (Cynllluniau gwella sgiliau lleol) a 4 (dehongli)**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn argymell y dylid rhoi cydsyniad deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chymalau 1 a 4 y Bil fel y'i cyflwynwyd. Ym mis Gorffennaf ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn nodi fy mhryderon am effaith ymarferol y cymalau hyn. Yn ôl asesiad fy Adran, byddai'r cymalau hyn yn berthnasol i ddarparwyr addysg bellach neu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru os bernir bod eu darpariaeth addysg dechnegol ôl-16 yn berthnasol i ardal benodol yn Lloegr. Gallai hyn olygu bod dyletswyddau yn cael eu gosod ar sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg yng Nghymru yn unig, y mae myfyrwyr o Loegr yn cael mynediad ati os yw'r ddarpariaeth yn berthnasol i ardal benodol yn Lloegr.

Ni fyddwn yn disgwyl i ddyletswyddau gael eu gosod ar ddarparwyr yng Nghymru mewn perthynas â darpariaeth a gyflwynir yng Nghymru, gan y gallai dyletswyddau o'r fath ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau yng Nghymru roi sylw i anghenion sgiliau cyflogwyr yn Lloegr ar yr un pryd ag ymateb i anghenion sgiliau cyflogwyr Cymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Yn benodol, nid wyf am i unrhyw sefydliadau yng Nghymru nad ydynt yn derbyn cyllid gan yr Ysgrifennydd Gwladol fod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau i roi sylw i Gynlluniau Gwella Sgiliau Lleol yn Lloegr. Felly, byddwn yn disgwyl i welliannau gael eu gwneud mewn perthynas â chymalau 1 a 4 sy'n mynd i'r afael â'r pryderon hyn ac i gyfyngu'r rhain i sefydliadau yng Nghymru sy'n cael arian gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yn dilyn fy llythyr, cafwyd trafodaethau cynhyrchiol ar lefel swyddogion sydd wedi llywio'r Adran Addysg yn ei bwriad i gyflwyno gwelliannau mewn perthynas â chymalau 1 a 4. Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn aros i weld y gwelliannau arfaethedig ynghylch perthynas cynlluniau gwella sgiliau lleol â sefydliadau yng Nghymru. Rhagwelaf y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifennu ataf ar y mater hwn cyn gosod gwelliannau ar gyfer y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Yn amodol ar asesiad o ran cymhwysedd deddfwriaethol o effaith y gwelliannau hynny, bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei ddiweddaru maes o law.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Cymal 14 (Cefnogaeth ar gyfer dysgu gydol oes)**

Mae bwriadau polisi Llywodraeth y DU o ran cyflwyno Hawl i Fenthyciad Gydol Oes wedi'u nodi yn eu papur gwyn *Skills for jobs: lifelong learning for opportunity and growth*. Ceir rhagor o fanylion am y cynigion yn yr Asesiad Effaith sy'n cyd-fynd â'r Bil, sy'n nodi: "*The current student finance system is underpinned by primary and secondary legislation. The government seeks to modify existing regulation-making powers in primary legislation to make specific provision for student finance in respect of modules of courses*." Mae'r Asesiad Effaith hefyd yn nodi "*In order to introduce the LLE from 2025, secondary legislation will need to be laid in Parliament by summer 2024. We will consult on the detail and scope of the LLE this year.*"

Nid yw pwerau Gweinidogion Cymru yn cael eu newid gan yr addasiadau arfaethedig i adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 fel y darperir ar eu cyfer gan gymal 14 y Bil. Mae'r rhesymau dros hyn fel a ganlyn. Mae cymal 14 yn diwygio Deddf 1998 i ddarparu esboniad i adran 22 y Ddeddf honno (sy'n bŵer galluogi ar gyfer gwneud y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru a Lloegr) fel bod modiwlau o gyrsiau addysg uwch (ac nid dim ond y cyrsiau hyn yn eu cyfanrwydd) yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Dim ond i'r graddau y mae swyddogaethau yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol y mae'r esboniad yn effeithiol. Mae rhai o swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn arferadwy mewn perthynas â Chymru ochr yn ochr â Gweinidogion Cymru, er nad oes yr un o'r swyddogaethau hynny'n destun gwelliannau testunol i'w gwneud gan y Bil. Fodd bynnag, dim ond swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol sydd i'w diwygio, a gadewir swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr fel y maent.

Mae swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â gwneud rheoliadau o dan adran 22(1) sy'n awdurdodi cynnig grantiau neu fenthyciadau mewn cysylltiad â modiwlau cyrsiau AU neu AB yn arferadwy mewn perthynas â Lloegr yn unig. Mae'r angen am gydsyniad deddfwriaethol yn deillio o'r ffaith bod pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru wedi'u gwahanu mewn ffordd anghyflawn pan ddatganolwyd y swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr i Gymru o dan Ddeddf 1998.

Os caiff y Bil ei basio, ni fydd pwerau Gweinidogion Cymru o dan adran 22 Deddf 1998 yr un fath â phwerau'r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd pwerau Gweinidogion Cymru yn parhau fel y maent ar hyn o bryd ac yn berthnasol i gyrsiau cyfan ond nid i fodiwlau cyrsiau o'r fath. Yn fy llythyr dyddiedig 9 Gorffennaf at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, nodais mai drwy Fil Senedd y dylid cyflawni darpariaeth o'r fath mewn perthynas â Chymru. Yn ogystal, dywedais wrth yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Gorffennaf y byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o fanylion am gynigion Llywodraeth y DU i gyflwyno Hawl i Fenthyciad Gydol Oes, ac y byddwn yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut y bydd yr hawl arfaethedig yn effeithio ar symiau canlyniadol cyllidebol, a sut y gallai benthyciadau ar gyfer yr Hawl i Fenthyciad Gydol Oes fod ar gael i Lywodraeth Cymru.

Hyd yma, nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei chynigion manwl ynghylch gweithredu a chyflwyno'r Hawl arfaethedig i Fenthyciad Gydol Oes, ac nid wyf wedi cael unrhyw wybodaeth bellach am y cynigion hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Cyfeiriwyd at y mater yn ystod fy sesiwn dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 23 Medi lle nodais y bydd cyngor yn cael ei ddarparu ar y Memorandwm ar ôl i'r trafodaethau gyda Llywodraeth San Steffan ddod i ben.

**Cymal 18 (Rhestr o ddarparwyr perthnasol)**

Yn ôl Nodiadau Esboniadol y Bil, mae cymalau 18 i 21 yn gwneud y canlynol: *"enable the Secretary of State to make regulations to provide for a list of post-16 education or training providers, in particular Independent Training Providers ("ITPs"), to indicate which providers*

*have met conditions that are considered to prevent or mitigate risks associated with the disorderly exit of a provider from the provision of education and training. Education or training is funded by various funding authorities.”*

Mae cymal 18 yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, wneud darpariaeth: (a) i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw rhestr o ddarparwyr perthnasol mewn perthynas ag addysg neu hyfforddiant perthnasol sy'n bodloni’r amodau a bennir yn y rheoliadau i fod ar y rhestr mewn perthynas â'r addysg neu'r hyfforddiant hwnnw; (b) mewn perthynas â'r rhestr.

Diben y rhestr yw atal awdurdodau cyllido rhag ymrwymo i drefniadau cyllido gyda darparwyr nad ydynt wedi'u rhestru (a 'rheoleiddio' trefniadau cyllido) – gweler cymal 19. Mae effaith y diffiniad o “ddarparwr hyfforddiant perthnasol” *(“relevant training provider”)* yng nghymal 18 yn golygu y gallai rhai darparwyr addysg a hyfforddiant annibynnol yng Nghymru ddod o fewn cwmpas y pŵer i wneud rheoliadau. Gallent, er enghraifft, gynnwys darparwyr hyfforddiant preifat sy'n gweithredu yng Nghymru sy'n cynnig darpariaeth addysg neu hyfforddiant ôl-16 yn Lloegr. Fodd bynnag, dim ond i'r graddau y cânt eu cyllido gan bersonau yn Lloegr (gweler cymal 19(7)) ac mewn perthynas â darparu addysg a hyfforddiant yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr. Yn fy marn i, nid yw cymalau 18 i 21 felly yn gyfystyr â "darpariaeth berthnasol” *(“relevant provision")* o fewn ystyr Rheol Sefydlog 29.1, ac o ganlyniad nid oes angen cydsyniad y Senedd. Mae cymal 20 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer dehongli cymalau 18 ac 19. Mae cymal 21 yn gwneud darpariaethau 'atodol' a gweithdrefnol mewn perthynas â rheoliadau o dan gymalau 18 ac 19.

**Cymal 25 (Sefydliadau yn y sector addysg bellach: gweithdrefn ar gyfer dynodi)**

Mae cymal 25 yn diwygio Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac mae'n berthnasol i Gymru. Fodd bynnag, nid yw'n gwneud unrhyw newidiadau i'r gyfraith - egluro y mae ac ailddatgan y gyfraith mewn perthynas â Chymru, ac yn fy marn i nid oes angen cydsyniad y Senedd.

**Oedi cyn gosod y Memorandwm**

Mae'n bwysig bod unrhyw ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar addysg bellach ac uwch yng Nghymru yn ystyried y cyd-destun Cymreig penodol. Bu oedi cyn gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn oherwydd yr angen i ystyried y goblygiadau cyfreithiol a pholisi i Gymru sy'n deillio o ddarpariaethau cymhleth y Bil a thrafod gyda Whitehall yr effaith y gall darpariaethau drafft ei chael mewn perthynas â Chymru.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 2

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.**

**Mae'r wybodaeth ysgrifenedig y gofynnwyd amdani gan y Pwyllgor i gefnogi'r cyfarfod wedi'i nodi isod:**

**1. <u>Eich blaenoriaethau a'ch prif feysydd gwaith.</u>**

## GOFALWYR IFANC AC OEDOLION IFANC SY'N OFALWYR

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am ofalwyr di-dâl o bob oed, ac mae'n cydweithio â'r Gweinidog Addysg ar y penderfyniadau polisi a'r camau gweithredu hynny sy'n effeithio ar ofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr, mewn addysg statudol yn benodol, yn ogystal ag Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Mae gwella ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, ond hefyd yn y sector addysg a hyfforddiant, yn hanfodol os ydym am wella cyfleoedd bywyd gofalwyr ifanc o'r ysgol gynradd hyd at 25 oed.

Mae ein prosiect uchelgeisiol i greu cerdyn adnabod cenedlaethol ar gyfer gofalwyr ifanc, gan gydweithio â phob awdurdod lleol ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, bellach ar ei ail flwyddyn. Yn ystod 2021-22, rydym wedi darparu £186k o gyllid yn y maes hwn. Rhoddwyd £150k ohono i awdurdodau lleol er mwyn iddynt ddatblygu eu gweithgarwch, a rhoddwyd £36k i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i gynhyrchu adnoddau cenedlaethol i hysbysu gweithwyr proffesiynol a chefnogi'r cyfarfodydd prosiect cenedlaethol a'r grwpiau clwstwr dysgu. Mae'r prosiect yn galluogi awdurdodau lleol a'r darparwyr gwasanaethau gofalwyr ifanc trydydd sector a gomisiynir ganddynt i brofi a threialu dulliau gweithredu a systemau gwahanol er mwyn gweld yr hyn sydd wir yn gweithio ar lawr gwlad ac sydd o fudd i ofalwyr ifanc. Mae 16 o awdurdodau lleol bellach wedi lansio cerdyn adnabod neu wedi trosglwyddo cynllun cerdyn a oedd eisoes yn bodoli i'r prosiect cenedlaethol. Y nod yw y bydd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn cynnig y cerdyn adnabod cenedlaethol i ofalwyr ifanc hyd at 18 oed erbyn diwedd mis Mawrth 2022.

## GOFAL PLANT, CHWARAE A CHYMORTH I BLANT A THEULUOEDD

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am ofal plant, chwarae a'n rhaglenni cymorth ar gyfer plant a theuluoedd. Mae sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r llywodraeth hon ac, i'r perwyl hwnnw, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni allweddol megis Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf (sef 2 o'r 7 rhaglen o fewn y Grant Plant a Chymunedau (Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol) sy'n darparu £149m o gyllid yn 2021-22) a'r Cynnig Gofal Plant (£75m). Rydym hefyd yn bwrw ymlaen gyda'r Adolygiad Gweinidogol o'r Polisi Chwarae ac yn datblygu gweithgareddau hanfodol ar hawliau plant a thrwy ein rhaglenni sy'n canolbwyntio ar leferydd, iaith a chyfathrebu, magu plant a Thrawsnewid y Blynyddoedd Cynnar. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn parhau i symud ymlaen gyda chynlluniau i roi Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ar waith.

Rydym yn gweithio'n agos gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), awdurdodau lleol a chynrychiolwyr o'r sector i gefnogi'r gwaith o adfer y sector gofal plant a chwarae yn dilyn COVID-19 ac rydym wedi buddsoddi £3.5m ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol hon (drwy'r Grant Plant a Chymunedau yn y Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol) er mwyn galluogi awdurdodau lleol i roi grantiau cynaliadwyedd ar raddfa fach i ddarparwyr. Mae'r math hwn o gymorth yn hollbwysig i sicrhau bod digon o wasanaethau gofal plant a chwarae o ansawdd da ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol rhieni ledled Cymru, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr hyn sy'n hanfodol bwysig i ni yw mynd i'r afael â'r effeithiau y mae'r pandemig a'i gyfyngiadau cysylltiedig wedi'u cael ar ein plant a'n pobl ifanc. Drwy gydweithredu, rydym wedi dod â gweithgor trawslywodraethol ynghyd i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan weithio'n arbennig o agos â Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol. Mae'r grŵp hwn wedi canfod drwy ei waith fod lefel uchel o niwed yn deillio o gyfyngiadau COVID-19; maent wedi effeithio ar bob agwedd ar fywyd a datblygiad plant a phobl ifanc; mae'r pandemig wedi effeithio'n wahanol ar grwpiau oedran gwahanol a chamau datblygu gwahanol; ac mae'r effeithiau'n anghyson.

Mae gwaith y grŵp wedi arwain at fentrau megis y Gronfa Datblygiad Plant (£11.5m rhwng mis Hydref 2021 a mis Mawrth 2022), Haf o Hwyl (£5m), sy'n gysylltiedig ag Adnewyddu a Diwygio, a hwb o £7 miliwn i'r Grant Plant a Chymunedau er mwyn lleihau rhestrau aros am help cynnar a gwasanaethau cymorth a rhoi cefnogaeth cyn gynted â phosibl gyda'r nod o helpu i fynd i'r afael ag effeithiau andwyol y pandemig ar blant a phobl ifanc 0-25 oed, gan gynnwys y rhai sydd newydd ddod yn agored i niwed.

Nawr mae'r grŵp yn gweithio i sicrhau bod dealltwriaeth o'r hyn y gwyddom sy'n peri niwed yn cael ei hystyried yn llawn mewn penderfyniadau yn y dyfodol ar gyfyngiadau'r pandemig pe bai tonnau pellach ac i ddatblygu naratif cyffredin a thrawslywodraethol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc i gyflwyno dealltwriaeth gyfannol o weithredoedd trawslywodraethol sy'n gysylltiedig â'n Rhaglen Lywodraethu sydd â phwyslais cryf ar gyfiawnder cymdeithasol.

## **PLANT A PHOBL IFANC SYDD Â PHROFIAD O FOD MEWN GOFAL**

Mae cyfrifoldeb polisi am blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a phlant sydd ar ffiniau gofal yn rhan o bortffolio'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae ein blaenoriaethau yn y maes polisi hwn yn cynnwys datblygu'r ymrwymiadau a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu ac a amlinellir yn adran 2 o'r ymateb ysgrifenedig hwn. Mae'r ymrwymiadau hyn yn ymwneud â darparu gofal cymdeithasol i blant yng Nghymru yn y dyfodol a, phan gânt eu rhoi ar waith gyda'i gilydd, byddant yn cefnogi'r broses o drawsnewid gofal cymdeithasol i blant yn gyfan gwbl.

Bydd cyflawni'r ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu yn helpu i leihau nifer y

plant sy'n derbyn gofal a, thrwy wneud hynny, bydd yn lleddfu'r pwysau ar wasanaethau plant. Mae'r ymrwymiadau yn cynnig fframwaith ar gyfer gweledigaeth newydd i wasanaethau plant a chynllun ar gyfer diwygio'r sector, gan ganolbwyntio ar ddulliau adferol ac arferion mwy mentrus. Bydd y rhaglen waith rydym yn ei rhoi ar waith yn cefnogi'r gwaith o ddiddymu elw ym maes gofal a bydd yr ymrwymiadau i ddiwygio gwasanaethau plant yn llywio ac yn ysgogi ein gweithgarwch yn y maes hwn.

Mae ein rhaglen waith yn cynnwys cymorth parhaus i sefydliad Maethu Cymru, a lansiwyd yn ystod yr haf, i hybu dulliau awdurdodau lleol o recriwtio gofalwyr maeth a'u capasiti. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn gwasanaethau preswyl rhanbarthol er mwyn rhoi cymorth arbenigol i'r plant hynny sydd ag anghenion cymhleth a darparu gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer y rhieni hynny sydd ar ffiniau gofal. Drwy ein gwaith rhianta corfforaethol, byddwn yn ceisio cryfhau cyfrifoldebau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal ynghyd ag ehangu'r dyletswyddau hynny i'r sector cyhoeddus.

Mewn perthynas â chyfiawnder teuluol a'r llysoedd, rydym yn gweithio gyda Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol i helpu i gyflawni argymhellion y Gweithgor ar Gyfraith Gyhoeddus er mwyn atal plant rhag bod yn destun achosion cyfraith gyhoeddus mewn modd diogel. Bydd cynllun peilot y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn Ne-ddwyrain Cymru hefyd yn cynnig dull llys datrys problemau o ymdrin ag achosion gofal y gall rhieni ddewis ei ddefnyddio yn hytrach na mynd drwy achos gofal safonol.

## Y GRONFA TRAWSNEWID

Mae'r Gronfa Trawsnewid yn cefnogi sawl prosiect ledled Cymru gan ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc. Yng **Nghaerdydd a'r Fro**, fel rhan o'r broses o ddatblygu Dull Gweithredu sy'n Ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i Greu Plant a Phobl Ifanc Gwydn, mae tîm gwydnwch yn gweithio mewn ysgolion i gefnogi llesiant emosiynol plant, gan gynnig safbwynt iechyd meddwl, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac ymlyniad mewn gwasanaeth cyfannol sy'n cwmpasu addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.

Error! Reference source not found.Mae'r prosiect ICEBERG yng **Ngwent** yn ceisio darparu mynediad di-dor at ofal iechyd meddwl i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ac mae'n cynnwys ymyriadau cynnar gyda'r nod o atal anghenion gofal rhag gwaethygu lle y bo modd.

Mae prosiect Error! Reference source not found.**Ymyrraeth Gynnar a Chefnogaeth Ddwys i Blant a Phobl Ifanc Gogledd Cymru** yn cynnwys tair elfen:

- ymgyrch amlasiantaeth i wella iechyd meddwl, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc drwy ymyrryd yn gynnar ac atal
- datblygu ymyriadau ‘ymateb cyflym’ (allgymorth mewn argyfwng) ar gyfer plant a theuluoedd sydd ar ffiniau gofal
- datblygu gwasanaethau preswyl byrdymor er mwyn hyrwyddo prosesau effeithiol i blant a phobl ifanc sydd ar ffiniau gofal ddychwelyd adref.

Mae dau brosiect wedi'u targedu yn mynd rhagddynt ym **Mhowys:**

- Nod y cynllun **Plant sy'n Derbyn Gofal yn eu Cynefin** yw defnyddio dulliau diogel i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a gaiff eu lleoli y tu allan i'r Sir a galluogi plant i fyw'n agosach i'w cartref drwy greu a datblygu capasiti maethu mewnol ychwanegol, sefydlu darpariaeth breswyl a llety a chynyddu adnoddau.
- Nod **Gwaith Atal wedi'i Dargedu** yw gwella canlyniadau iechyd plant mewn cymunedau difreintiedig yng Ngogledd Powys drwy ddarparu rhaglenni iechyd a llesiant mewn ysgolion cynradd yn benodol.

## ADFER GOFAL CYMDEITHASOL

Gan ystyried yr heriau y mae'r pandemig yn parhau i'w cyflwyno i'r sector gofal cymdeithasol a'r angen i gefnogi'r sector hwn, adfer a symud ymlaen, fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, mae Gweinidogion wedi cytuno ar gronfa adfer gwerth £40 miliwn ar gyfer gofal cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Gwnaed dyraniadau fesul awdurdod lleol er mwyn i awdurdodau wario, gyda'u partneriaid, ar weithgarwch adfer ym maes gofal cymdeithasol yn unol â'r blaenoriaethau yn y Fframwaith ar gyfer Adferiad Gofal Cymdeithasol, a ddatblygwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o'r sector, ac a gyhoeddwyd ar 22 Gorffennaf. (Gweler: https://llyw.cymru/fframwaith-ar-gyfer-adferiad-gofal-cymdeithasol-covid-19)

Mae'r gronfa yn adeiladu ar y Fframwaith hwnnw a bwriedir iddi gefnogi awdurdodau lleol a phartneriaid i fynd i'r afael â blaenoriaethau uniongyrchol a blaenoriaethau byrdymor y cytunwyd arnynt er mwyn adfer. Mae'r Fframwaith yn ymhelaethu ar **Gwella Iechyd a Gofal Cymdeithasol (COVID-19: Edrych Tua'r Dyfodol)**, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, a bwriedir iddo helpu i osod y sylfeini ar gyfer dyfodol cryf a chadarnhaol gofal cymdeithasol yng Nghymru, fel yr amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu.

Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £8 miliwn ychwanegol mewn amrywiaeth o weithgareddau i adfer gofal cymdeithasol. Mae prosiectau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc yn cynnwys:

- £2,800,000 ar gyfer y Gronfa Ymyrraeth Deuluol i gefnogi Llesiant Plant a Theuluoedd drwy gymysgedd o gymorth ymarferol a chymorth uniongyrchol er mwyn dargyfeirio achosion yn ddiogel o'r Gofrestr Amddiffyn Plant;
- £2,800,000 ar gyfer gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sydd ag anghenion cymhleth; gan ehangu argaeledd cynlluniedig y math hwn o ddarpariaeth ledled Cymru;
- £1,000,000 (fel yr ymhelaethir isod) er mwyn sicrhau bod y Gronfa Cymorth i Ofalwyr yn parhau, gan barhau i liniaru effaith ariannol y pandemig drwy ddarparu grantiau o hyd at £300 i ofalwyr di-dâl sydd mewn angen dirfawr ledled Cymru;
- £600,000 i gefnogi dull ar lefel clwstwr o gynnal archwiliadau iechyd ar gyfer anableddau dysgu, gan gynyddu gweithgarwch y bwrdd iechyd yn y maes hwn er mwyn sicrhau iechyd a llesiant unigolion a nodi problemau iechyd posibl mor gyflym â phosibl a lleihau'r anghydraddoldebau iechyd

cysylltiedig; a

- £150,000 i gefnogi Cartref Plant Diogel Hillside i adfer ar ôl COVID-19.

**CAFCASS CYMRU**

Er nad yw'r polisi Llys Teulu a Chyfiawnder Teuluol wedi'i ddatganoli i Gymru, mae Cafcass Cymru yn darparu gwasanaeth statudol a arweinir gan alw drwy Ddeddf Plant 2004 i'r Llys Teulu yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywydd yr Adran Deulu, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi er mwyn sicrhau bod anghenion a hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael eu parchu a'u hystyried yn y System Cyfiawnder Teuluol sy'n gwasanaethu Cymru a Lloegr.

Yn 2020-21, gwnaethom weithio gyda thros 11,000 o'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed a oedd yn destun achosion mewn llysoedd teulu yng Nghymru. Mae cynnydd o 16% yn nifer y plant rydym yn gweithio gyda nhw dros y tair blynedd diwethaf yn golygu bod llwythi gwaith wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed. Yn ogystal â'r cynnydd yn nifer yr achosion newydd, mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar yr oedi wrth i achosion fynd drwy system y llysoedd ac, o ganlyniad, mae gan Cafcass Cymru y nifer uchaf o achosion agored y mae erioed wedi'u rheoli.

Mae'r pwysau sydd ar Cafcass Cymru yn adlewyrchu'r System Cyfiawnder Teuluol gyfan. Mae Prif Weithredwr Cafcass Cymru yn aelod o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol sydd wrthi'n ystyried cynigion ar gyfer adfer, gwella a diwygio'r llysoedd teulu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn arwain rhaglen uchelgeisiol i ddiwygio elfennau canolog o'r System Cyfiawnder Teuluol a fydd o bosibl yn ehangu rôl Cafcass Cymru mewn materion ‘Cyfraith Breifat’.

Mae'r angen am newid diwylliannol a'r ffordd y mae rhieni sy'n gwahanu/wedi gwahanu yn cael eu cefnogi y tu mewn i'r llys a'r tu allan iddo yn allweddol. Y nod yw sicrhau bod teuluoedd yn cael ymyrraeth gan y llys os bydd angen hynny arnynt, a bod y rhai a fyddai'n cael y budd mwyaf o ymyrraeth amgen y tu allan i'r llys yn cael y cymorth hwn. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r diwygiadau radical sydd eu hangen i wella canlyniadau i blant.

O ran Cyfraith Gyhoeddus, rydym yn parhau i weithio gyda'n holl randdeiliaid i gyflawni'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Weithgor Cyfraith Gyhoeddus Llywydd yr Adran Deulu, ynghyd â'r Canllawiau Arferion Gorau i'r rhai sy'n gweithio yn y System Cyfiawnder Teuluol. Mae Cafcass Cymru yn parhau i fod yn rhan o is-grwpiau parhaus sy'n ystyried rôl Gorchmynion Goruchwylio yn y dyfodol ac yn adolygu'r ddeddfwriaeth gyfredol ar fabwysiadu.

Rydym hefyd yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i roi blaenoriaethau'r Prif Weinidog ar gyfer plant a theuluoedd ar waith.

**COVID HIR**

Yn ogystal ag effeithiau eraill y pandemig, rydym yn gweld nifer bach o blant a

phobl ifanc sy'n parhau i ddangos symptomau ar ôl cael COVID-19. Er bod y niferoedd yn isel ar hyn o bryd, gall y rhai sy'n dangos symptomau parhaus fwy na 12 wythnos ar ôl yr heintiad cychwynnol fod ag anghenion sylweddol iawn.

Gwnaethom lansio rhaglen Adferiad ar 15 Mehefin 2021 a oedd yn cynnwys pecyn cymorth gwerth £5 miliwn i gyflwyno cyfres newydd o wasanaethau a llwybrau newydd i gleifion er mwyn cefnogi'r rheini sydd â COVID hir. Er mwyn sicrhau ein bod yn dilyn y cyngor rhyngwladol gorau ac yn parhau i ymateb yn briodol, wrth inni ddysgu mwy am y cyflwr ofnadwy hwn, caiff y rhaglen ei hadolygu bob chwe mis.

Cafodd y Canllawiau i Gymru ar reoli COVID hir eu lansio'r un wythnos. Mae'r canllawiau hyn, sydd ar gael yn ddigidol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gan gynnwys meddygon teulu, yn golygu bod cyngor a gwybodaeth gyson ar gael i weithwyr gofal iechyd proffesiynol am y tro cyntaf, gan eu galluogi i roi cyngor priodol i gleifion a'u hatgyfeirio at wasanaethau pellach, gan gynnwys gwasanaethau gofal eilaidd arbenigol pan fo angen. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cynnwys cyngor ar drin plant a phobl ifanc.

Mae COVID hir yn gyflwr newydd a, gan ein bod yn ymwybodol nad yw'r effeithiau yr un peth, rydym yn ystyried a yw anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu diwallu'n briodol gan drefniadau presennol. Crëwyd grŵp yn ddiweddar sy'n cynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, swyddogion polisi o'r sector addysg ac iechyd a chynrychiolwyr o Goleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, er mwyn ystyried ein hymateb.

**ANGHYDRADDOLDEBAU IECHYD**

Un o uchelgeisiau canolog y Llywodraeth hon yw gwneud popeth y gallwn i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd rhwng ein cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig. Byddwn yn parhau i ddefnyddio dull gweithredu Llywodraeth gyfan wrth fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldebau iechyd, yn unol â'r ymrwymiad a nodir yn ein Rhaglen Lywodraethu newydd sy'n cynnwys ymdrin ag anghydraddoldebau yng Nghymru fel un o'i themâu allweddol. I'r perwyl hwn, rydym yn datblygu ein gwaith gyda menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRi) ac yn parhau i ymgorffori ein dull gweithredu trawslywodraethol, Iechyd ym Mhob Polisi, a hyrwyddo'r defnydd o broses Asesu'r Effaith ar Iechyd er mwyn sicrhau bod polisïau yn cyfrannu gymaint â phosibl at leihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae amddifadedd yn ffactor pwysig sy'n cyfrannu at smygu sydd, yn ei dro, yn gwaethygu anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru. Rydym am leihau nifer y bobl ifanc sy'n dechrau smygu a'u hannog i fyw bywydau iachach, a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Ar 1 Mawrth 2021, gwnaethom wneud smygu ar dir ysgolion, mewn meysydd chwarae cyhoeddus ac ardaloedd awyr agored lleoliadau gofal plant yn anghyfreithlon gan ein bod yn benderfynol o ddiogelu pobl rhag mwy ail-law niweidiol a newid barn plant a phobl ifanc am smygu.

## CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

Mae ‘Camddefnyddio Sylweddau’ yn rhan o bortffolio'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Mae mynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio ar bobl o bob oed, gan gynnwys plant a phobl ifanc, am eu bod yn eu defnyddio eu hunain ac am fod eu rhiant/gofalwr yn eu defnyddio.

Rydym yn buddsoddi bron £55m bob blwyddyn yn ein hagenda camddefnyddio sylweddau, ac mae £2.75m wedi'i glustnodi'n benodol i gefnogi gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Mae rhoi cymorth i blant, pobl ifanc a theuluoedd ymhlith y blaenoriaethau yng Nghynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022, a phan wnaethom gynyddu'r cyllid ar gyfer Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau 10% yn 2019, gwnaethom nodi bod hwn yn faes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad.

Mae Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, yn seiliedig ar ddull gweithredu lleihau niwed sy'n cydnabod bod caethiwed yn fater iechyd a gofal yn hytrach nag un sy'n gysylltiedig â chyfiawnder troseddol yn unig. Nod cyffredinol y Cynllun yw sicrhau bod pobl yng Nghymru yn ymwybodol o beryglon ac effaith camddefnyddio sylweddau ac yn gwybod ble y gallant gael gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth.

Mae'r Cynllun wedi cael ei ddiwygio mewn ymateb i COVID-19 er mwyn adlewyrchu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud, ac a fydd yn cael ei wneud, o ganlyniad i'r pandemig. Cyhoeddwyd y Cynllun diwygiedig ym mis Ionawr 2021.

2. **Gweithgareddau ac ymrwymiadau perthnasol y Rhaglen Lywodraethu sy'n rhan o'ch portffolio, gan gynnwys: y rhai lle y cewch eich rhestru fel ‘y Gweinidog ar gyfer y portffolio perthnasol’; y rhai sy'n rhan o'ch portffolio ond a gaiff eu rhestru fel cyfrifoldeb y ‘Cabinet llawn’ a sut y byddwch yn cydgysylltu ac yn integreiddio pob rhan o'r llywodraeth i gyflawni'r rhain; a chamau ac amserlenni dangosol ar gyfer cyflawni'r gweithgareddau a'r ymrwymiadau hyn.**

   **Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu amlinelliad o sut rydych yn bwriadu gweithio gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, gan gynnwys manylion y llinellau cyfrifoldeb dros gyflawni'r ymrwymiadau sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor hwn.**

## DECHRAU'N DEG

Mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn arwain cyfrifoldebau'r Cabinet sy'n ymwneud â Dechrau'n Deg a darparu gofal plant i rieni sydd mewn addysg neu hyfforddiant, ynghyd â'r ymrwymiad portffolio mewn perthynas â Bwndeli Babi.

Rydym wedi cynnal ein buddsoddiad cyfredol yn rhaglen Dechrau'n Deg. Nod rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar, Dechrau'n Deg, yw gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant dan 4 oed yn yr ardaloedd lle mae ar waith. Mae'n cynnwys pedair elfen graidd, sef gofal plant o safon sydd wedi'i ariannu'n llawn, cymorth rhianta, cymorth dwys gan ymwelwyr iechyd, a chymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'n parhau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Yn 2020, llwyddodd Llywodraeth Cymru i gyflawni ei tharged o ddarparu gwasanaethau Dechrau'n Deg i 36,000 o blant am y chweched flwyddyn yn olynol.

Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at heriau digynsail i bob teulu ac mae'r cymorth a gynigir i deuluoedd sy'n agored i niwed gan Dechrau'n Deg wedi bod hyd yn oed yn fwy gwerthfawr yn ystod y cyfnod hwn. Rydym hefyd yn ystyried y ffordd orau o roi cymorth ychwanegol gyda chostau gofal plant i fwy o deuluoedd, yn defnyddio rhaglenni presennol ar draws y llywodraeth ac yn ystyried y ffordd fwyaf priodol o dargedu'r cymorth hwn, er enghraifft drwy nodi grwpiau blaenoriaeth o rieni a/neu sectorau blaenoriaeth.

Gan adeiladu ar y cynllun peilot yn gynharach eleni, rydym yn ystyried y posibilrwydd o gynnal cynllun bwndeli babi cenedlaethol ar hyn o bryd.

**ANGHYDRADDOLDEBAU IECHYD**

Er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, llofnododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd yn 2020 gyda'r nod o gyflymu cynnydd o ran creu Cymru ac Ewrop iachach a mwy cyfartal. Cyhoeddwyd Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru: Gosod tegwch iechyd wrth wraidd ymateb ac adferiad cynaliadwy COVID-19 ar 18 Mawrth 2021 fel yr adroddiad cyntaf a oedd yn deillio o'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at niwed a chyfleoedd amrywiol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r cyfyngiadau cysylltiedig, gan ganolbwyntio ar y canlyniadau anghyfartal mewn sectorau, camau bywyd a grwpiau poblogaeth gwahanol.

Mae hefyd yn nodi amrywiaeth eang o bolisïau, canllawiau a deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru mewn meysydd megis cyllid, addysg, tai a chysylltedd digidol y mae pob un ohonynt yn cyfrannu at ein hymateb yng Nghymru i COVID-19. Byddwn yn parhau i ystyried yr adroddiad hwn a'i ganfyddiadau wrth lunio polisïau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd wrth inni ddechrau dod allan o bandemig COVID-19.

Dros y misoedd nesaf, bydd ein gwaith gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ddatblygu Llwyfan Datrysiadau Ar-lein Tegwch Iechyd Cymru yn parhau hefyd. Bydd y llwyfan hwn yn cynnig adnodd gwerthfawr i wneuthurwyr polisïau drwy eu helpu i sicrhau bod eu gwaith yn cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd gymaint â phosibl.

Yn ystod tymor y Llywodraeth hon, byddwn yn parhau i ymgorffori ein dull gweithredu Iechyd ym Mhob Polisi ymhellach drwy ddatblygu ein defnydd o

Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ein polisïau yn cyfrannu gymaint â phosibl at y gwaith o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy nodi cyfleoedd lle gellir diwygio polisïau i gael mwy o effaith ar ymdrechion i ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd, a nodi unrhyw effeithiau negyddol posibl a'u lliniaru. Byddwn yn ategu'r gwaith hwn drwy ddatblygu Rheoliadau fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 er mwyn ei gwneud yn orfodol i gyrff cyhoeddus Asesu'r Effaith ar Iechyd dan rai amgylchiadau.

**GORDEWDRA YMHLITH PLANT**

Gwyddom fod tua un o bob pedwar (tua 9,000) o'n plant 4 a 5 oed sy'n dechrau'r ysgol bob blwyddyn dros bwysau neu'n ordew. Mae lefelau gordewdra ymhlith plant yn waeth yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig ac mae gordewdra difrifol ymhlith plant yn parhau i gynyddu. Mae'r duedd hon yn cynyddu drwy'r glasoed ac yn parhau pan fyddant yn oedolion, ac mae bron 60% (tua 1.5 miliwn) o'r oedolion hyn dros bwysau neu'n ordew. Mae'r pandemig wedi effeithio ar ddewisiadau o ran bwyd a gweithgarwch corfforol hefyd, sydd wedi effeithio'n waeth ar anghydraddoldebau iechyd, a byddwn yn pennu llwybr i fynd i'r afael â'r materion hyn ac i roi dull gweithredu â sawl elfen ar waith i gefnogi plant a theuluoedd ledled Cymru.

Bydd Strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach, sef ein cynllun deg mlynedd i leihau ac atal gordewdra, yn ceisio gwneud y newidiadau hyn drwy newid ymddygiadau yn ein lleoliadau, ein hamgylcheddau a'n harferion. Mae hyn yn cynnwys cyfres o gynlluniau cyflawni chwemisol sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu y gellir eu cyflawni. Bydd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn lansio Cynllun Cyflawni 22-24 yn gynnar y flwyddyn nesaf, a fydd yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu dros £13m o gyllid dros ddwy flynedd.

Bydd hyn yn cynnwys ariannu gwasanaethau gordewdra er mwyn sicrhau mynediad teg at gymorth ledled Cymru, darparu gwaith a arweinir gan system a fydd yn gweithio gyda chymunedau, treialu ymyriadau megis Rhaglen i Blant a Theuluoedd, cyflwyno deddfwriaeth newydd ym maes bwyd a datblygu ymgyrchoedd newid ymddygiad er mwyn cefnogi newid cynaliadwy. Byddwn yn meithrin atebolrwydd ym mhob rhan o'r system, gan gynnwys gyda Byrddau Iechyd Lleol, i'n helpu i gyflawni'r ymrwymiadau hyn.

**PRESGRIPSIYNU CYMDEITHASOL**

Mae presgripsiynu cymdeithasol wedi ymddangos mewn sawl polisi a strategaeth gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (2019-22) a Cysylltu Cymunedau: Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a chreu cysylltiadau cymdeithasol cryfach. Yn ddiweddarach, mae Rhaglen Lywodraethu 2021-26 yn ymrwymo i gyflwyno fframwaith ar gyfer Cymru gyfan i roi presgripsiynu cymdeithasol ar waith er mwyn mynd i'r afael ag ynysigrwydd.

Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen gan y cyn Weinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ym mis Mawrth 2021 er mwyn deall sut y gallai presgripsiynu cymdeithasol helpu Cymru i adfer yn sgil COVID-19, ac mae'r Rhaglen

Lywodraethu yn nodi ymrwymiad i ddatblygu Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol Cymru gyfan. Mewn partneriaeth â’r sector gofal sylfaenol, byrddau iechyd, y trydydd sector a chyrff perthnasol eraill, mae’r grŵp gorchwyl a gorffen yn ystyried yr opsiynau ar gyfer datblygu fframwaith o’r fath, a sut y gall ategu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol a chysylltwr cymunedol sy’n bodoli eisoes, yn hytrach na’u disodli. Mae’r grŵp wedi bod yn ceisio ennyn dealltwriaeth o fanteision cyflwyno cynnig ledled Cymru i gefnogi’r gwaith o ddatblygu presgripsiynu cymdeithasol yng ngoleuni COVID-19, ynghyd â dealltwriaeth o’r rhwystrau i ddatblygu presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru. Hyd yma, mae’r grŵp wedi gweithio gyda’r sector i nodi rhai meysydd allweddol lle y gallai’r fframwaith ychwanegu buddiannau ar sail unwaith i Gymru, fel safonau cyffredin, cefnogi’r gweithlu, trefniadau llywodraethu a’r defnydd o dechnoleg.
Cynhelir cyfarfod nesaf y grŵp gorchwyl a gorffen, a gaiff ei gadeirio gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, ddechrau mis Hydref. Caiff y camau nesaf eu trafod yn y cyfarfod hwnnw.

## NEWID YN YR HINSAWDD

Mae rôl y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys gweithio gyda'r Gweinidogion Hinsawdd er mwyn goruchwylio GIG Cymru a sicrhau ei fod yn cyfrannu'n llawn at y targedau deddfwriaethol i gael Cymru sero-net erbyn 2050 a'r uchelgais i'r sector cyhoeddus ar y cyd fod yn sero-net erbyn 2030. Mae GIG Cymru yn cydnabod bod cyfle pwysig i'r system iechyd arwain y ffordd o ran lleihau allyriadau carbon y sector cyhoeddus.
Mae angen gweithredu nid yn unig am mai GIG Cymru yw allyrrydd mwyaf y sector cyhoeddus (gydag ôl troed carbon o oddeutu 1.00 $MtCO_2e$ yn 2018/19) ond hefyd am fod y system iechyd, ynghyd â gofal cymdeithasol, ar flaen y gad o ran ymateb i effaith andwyol yr argyfwng hinsawdd ar ganlyniadau iechyd, gan gynnwys y rhai sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Mewn ymateb i'r her ym mis Mawrth 2021, cyhoeddwyd Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru. Mae'r cynllun yn cynnwys 46 o ymrwymiadau i'w cyflawni erbyn 2025 yn y meysydd sydd â'r allyriadau mwyaf, gan gynnwys Caffael, Adeiladau, Defnydd Tir, Symudedd a Thrafnidiaeth – bwriedir i 30 o'r ymrwymiadau hyn gael eu cyflawni erbyn 2023.

## CYMORTH I OFALWYR

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am ofalwyr di-dâl o bob oed. Lansiwyd y Gronfa Gymorth i Ofalwyr gwerth £1m ar ddiwedd mis Hydref 2020 mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a'i rhwydwaith o bartneriaid ledled Cymru. Darparwyd £0.25m ychwanegol ar ddiwedd mis Ionawr 2021, i gydnabod y galw sylweddol a nodwyd yn ystod y cam cyflwyno cyntaf. Cafodd y gronfa ei hysbysebu a'i hyrwyddo i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd yn genedlaethol ac yn lleol. Yn 2020-21, cefnogodd y gronfa fwy na 5,900 o ofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc, er mwyn eu helpu i ymdopi â phwysau ariannol ychwanegol. Llwyddodd y cynllun i helpu gofalwyr a oedd yn wynebu anawsterau ariannol a gwnaeth helpu gofalwyr nad oeddent yn cael cymorth yn flaenorol i gysylltu â gwasanaethau cymorth ehangach hefyd.

Cytunwyd i ddarparu £1m ychwanegol er mwyn parhau i gynnal y Gronfa Gymorth

i Ofalwyr yn 2021-22, a chyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau cymorth cynaliadwy ychwanegol i'r gofalwyr mwyaf agored i niwed.

## PLANT A PHOBL IFANC SYDD Â PHROFIAD O FOD MEWN GOFAL

Wrth roi'r ymrwymiadau hyn ar waith, bydd y strwythurau llywodraethu sydd ar waith, a'r rhai sydd i'w cwblhau, yn sicrhau bod rhannau eraill o Lywodraeth Cymru yn cyfrannu at y broses o'u datblygu a'u gweithredu. Yn benodol, bydd swyddogion o'r adrannau addysg, iechyd a thai yn aelodau o grwpiau gweithredu a fydd yn goruchwylio'r gwaith hwn.

**Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal.**

Nod gwasanaethau eirioli i rieni yw rhoi cymorth i rieni y mae eu plant ar ffiniau gofal, gan osgoi'r angen i wasanaethau cymdeithasol statudol orfod mynd i'r afael â'r mater ac atal y sefyllfa rhag gwaethygu a, thrwy hynny, leihau'r risg y bydd plant yn dod yn rhan o'r system ofal. Byddwn yn buddsoddi mewn gwasanaethau eirioli i rieni er mwyn sicrhau bod cymorth eiriolaeth ar gael ledled Cymru i rieni'r plant hynny sydd ar ffiniau gofal. Mae cynigion yn cael eu datblygu i ddarparu cyllid er mwyn ehangu cymorth eiriolaeth i rieni yn saith rhanbarth Cymru.

**Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal.**

Byddwn yn buddsoddi £20m i ddarparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth sydd ar ffiniau gofal, drwy'r Gronfa Gofal Integredig. Rydym yn ystyried opsiynau o ran y ffordd orau y gallwn ddefnyddio ein buddsoddiadau i ddarparu cymorth wedi'i dargedu ac yn seiliedig ar dystiolaeth i deuluoedd sydd â phlant ag anghenion cymhleth. Rydym am weld dulliau system integredig sy'n cynnig buddiannau uniongyrchol i blant a phobl ifanc fel bod teuluoedd yn cael y cymorth arbenigol cywir i ddiwallu eu hanghenion yn agos i'w cartrefi. Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn cael help yn eu cymunedau lle bynnag y bo modd, gyda chefnogaeth eu teuluoedd a'u ffrindiau.

**Ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal.**

Crybwyllodd y Papur Gwyn ar Ddyfodol Gofal Cymdeithasol gyfleoedd i ddiwygio gwasanaethau i blant fel rhan o'r cynllun i ddiwygio'r gwasanaethau cymdeithasol yn gyfan gwbl. Mae opsiynau pellach ar gyfer diwygio yn cael eu datblygu gan swyddogion i'w hystyried gan Weinidogion. Byddwn yn ystyried datblygu'r cynigion hyn ymhellach a chyflwyno gweledigaeth ac uchelgais newydd ar gyfer gwasanaethau plant, yn seiliedig ar arferion mwy cyson a mwy mentrus, a dulliau mwy adferol yn cael eu rhagnodi a'u mabwysiadu ledled Cymru.

**Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn ystod tymor nesaf y Senedd.**

Bwriad yr ymrwymiad hwn yw dileu'r holl elw preifat o ofal plant mewn perthynas â chartrefi gofal plant, gofal maeth, llety â chymorth i bobl ifanc hyd at 25 oed a gofal arbenigol yn y cartref i blant, gan gynnwys plant anabl. Bydd ein ffocws cychwynnol ar gartrefi gofal plant a gofal maeth. Mae Bwrdd Rhaglen, wedi'i gadeirio gan Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, yn cael ei sefydlu i arwain y gwaith o ddatblygu cynigion sy'n rhoi'r ymrwymiad ar waith. Mae cynrychiolwyr o amrywiaeth o sectorau a meysydd perthnasol wedi cael eu nodi fel aelodau posibl ac mae llythyrau gwahoddiad wedi cael eu dosbarthu. Mae cylch gorchwyl a threfniadau llywodraethu wedi cael eu datblygu a bwriedir i'r cyfarfod cyntaf gael ei gynnal ar 27 Medi.

**Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.**

Rydym eisoes wedi rhoi £2m o gyllid refeniw o'r Gronfa Gofal Integredig i dri Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ystod 2021-22 er mwyn ysgogi eu gwaith i ddatblygu darpariaeth breswyl ranbarthol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Nod hyn yw atal achosion rhag cael eu huwchgyfeirio i ddarpariaeth lles ac iechyd meddwl ddiogel i gleifion mewnol, a hwyluso prosesau i isgyfeirio cleifion o ddarpariaeth o'r fath. Rydym yn bwriadu creu cymuned ymarfer sy'n cynnwys pob rhanbarth er mwyn gallu rhannu'r hyn a ddysgir. Mae £2.8m o gyllid refeniw ychwanegol o'r Gronfa Gofal Integredig wedi cael ei neilltuo er mwyn cefnogi'r pedwar rhanbarth sy'n weddill. Caiff y cyllid hwn ei ddarparu maes o law.

**Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'.**

Rydym yn bwriadu ehangu'r cysyniad o rianta corfforaethol ym mhob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i blant â phrofiad o fod mewn gofal, er mwyn helpu i sicrhau bod plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael yr ymateb a'r cymorth gorau gan y gwasanaethau hyn.

Mae Grŵp Gweithredu eisoes wedi cael ei sefydlu ac mae wedi cyfarfod. Mae'r grŵp yn datblygu Siarter i sefydliadau'r sector cyhoeddus ymrwymo iddi. Caiff sesiynau a digwyddiadau ymgysylltu ar draws y sector cyhoeddus eu cynnal yn yr hydref/gaeaf er mwyn cryfhau rhianta corfforaethol mewn awdurdodau lleol ac ehangu cyfrifoldebau i bob rhan o'r sector cyhoeddus. Rhoddir pwyslais penodol ar iechyd, addysg a thai.

**Parhau i gefnogi a chynnal hawliau plant a phobl ifanc ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches.**

Rydym yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref a chydweithwyr yn y gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau bod y cynigion ym Mil Cenedligrwydd a Ffiniau Llywodraeth y DU yn addas at y diben yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau penodol mewn perthynas ag asesu oedran. I'r perwyl hwn, rydym wedi cyhoeddi Pecyn Cymorth Asesu Oedran i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches a luniwyd gan ystyried lles pennaf a hawliau'r plant ac mewn cyd-destun 'plentyn yn gyntaf, mudwr yn ail'.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, awdurdodau lleol a Chonsortiwm Comisiynu Plant Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.

**Cefnogi ein cynllun Maethu Cymru cenedlaethol.**

Byddwn yn parhau i gefnogi Maethu Cymru a fydd yn helpu awdurdodau lleol i gynyddu argaeledd a digonolrwydd lleoliadau lleol. Mae Maethu Cymru yn cynnig cyfle i gydbwyso'r gwasanaethau a ddarperir o'r newydd, ateb y galw, a gwella ansawdd y dewis o leoliadau i blant yng Nghymru. Elfen bwysig o'r gwaith hwn yw rhoi pwyslais cryf ar sicrhau bod plant yn cael gofal ac yn cael eu cefnogi yn agosach i'w cymunedau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu £1.1 miliwn ychwanegol dros ddwy flynedd er mwyn parhau i gefnogi Maethu Cymru.

## CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

Mae camddefnyddio sylweddau yn fater trawsbynciol felly, er na chaiff ei grybwyll yn benodol ymhlith gweithgareddau'r Rhaglen Lywodraethu, mae'n effeithio ar nifer o ymrwymiadau allweddol na chânt eu cyflawni i'r bobl fwyaf agored i niwed os na chefnogir gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Yn fras, y rhain yw iechyd meddwl, tai a digartrefedd, a phlant a theuluoedd.

Ymhlith yr ymrwymiadau allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau mae:

- Diwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu’n gyflym.
- Talu’r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal.
- Datblygu cynllun gweithredu HIV i Gymru.
- Blaenoriaethu ailgynllunio gwasanaethau i wella dulliau ataliol, mynd i’r afael â stigma a hyrwyddo dull dim drws anghywir o ddarparu cymorth iechyd meddwl.
- Blaenoriaethu buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl.
- Diwygio gofal sylfaenol, gan ddod â gwasanaethau meddygon teulu, fferylliaeth, therapi, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, y gymuned a’r trydydd sector at ei gilydd.
- Darparu gwell mynediad at feddygon, nyrsys, deintyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.
- Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal.
- Ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio’r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal ac yn gadael gofal.
- Cefnogi datblygiadau tai arloesol i ddiwallu anghenion gofal.

Mae ymateb i broblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd, sicrhau gwaith partneriaeth cryf â gwasanaethau tai a digartrefedd, a rhoi cymorth pellach i

deuluoedd a gofalwyr pobl sy'n camddefnyddio sylweddau oll yn feysydd blaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022 ac fe'u hatgyfnerthwyd yn ystod y pandemig.

**GWASANAETHAU AWTISTIAETH A NIWRODDATBLYGIADOL**

Mae cyflwyno cod ymarfer statudol ar gyflenwi gwasanaethau awtistiaeth i blant ac oedolion yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu bresennol. Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant sy'n gyfrifol am gyflawni'r ymrwymiad hwn, a nodir mai cyfrifoldeb y Cabinet llawn ydyw.

Cyhoeddwyd y Cod Ymarfer statudol terfynol ar Gyflenwi Gwasanaethau Awstistiaeth a chanllawiau ategol ar 16 Gorffennaf, a daethant i rym ar 1 Medi 2021. Mae'r Cod yn cynnwys rhagair ar y cyd gennyf fi a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, sy'n pwysleisio ein hymrwymiad llawn ac ar y cyd.

Ar 16 Gorffennaf, cyhoeddwyd cynllun cyflawni cychwynnol hefyd sy'n nodi'r blaenoriaethau o ran cyflawni'r Cod, gan gynnwys cynlluniau yn ymwneud ag adfer yn sgil COVID-19, gwasanaethau Cymraeg a chymorth i bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Er mwyn dangos ein hymrwymiad parhaus i wella gwasanaethau i oedolion a phlant, mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wedi cytuno y byddwn yn parhau i ariannu'r Tîm Awstistiaeth Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Mae hyn yn cynrychioli buddsoddiad o £3.6 miliwn o leiaf ar gyfer 2022-23.

Aethpwyd ati i gynnal yr adolygiad o alw a chapasiti ym mis Chwefror eleni, a bydd adroddiad interim ar ddiwedd mis Medi yn nodi camau cynnar i wella gwasanaethau ac opsiynau ar gyfer datblygu gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd yr adroddiad terfynol, a fydd yn llywio cam nesaf y cynllun cyflawni, ar gael erbyn mis Mawrth 2022.

Mae ffrwd waith cyflyrau niwroddatblygiadol y Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau, gan gynnwys profi adnodd proffilio a fydd yn helpu i symleiddio'r broses asesu. Mae'r Rhaglen hefyd wedi bod wrthi'n cyflwyno fframwaith cynllunio NYTH/NEST ar draws Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae NYTH yn gosod plant wrth wraidd y penderfyniadau a wneir er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddrysau anghywir pan fydd teuluoedd yn ceisio cymorth.

Mae'r Cod yn sylfaen gadarn ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol ac, ochr yn ochr â blaenoriaethu'r broses weithredu, rydym hefyd yn annog rhanddeiliaid i roi adborth ac yn gwrando ar yr adborth hwnnw. Mae tîm wedi'i sefydlu sy'n gyfrifol am wasanaethau anableddau dysgu, awtistiaeth a niwroddatblygiadol, sy'n cyflawni gwaith trawsbortffolio mewn perthynas â pholisïau iechyd meddwl, addysg a chyflogaeth. Bydd y dull integredig a chydgysylltiedig hwn yn helpu i sicrhau bod y cymorth a roddir o ran iechyd, awdurdodau lleol a'r gymuned yn cael ystyriaeth gyfartal ac y gellir ei ddatblygu mewn partneriaeth ar draws sefydliadau, gan gynnwys cymorth ar gyfer cyflyrau sy'n cydfodoli.

**3. Sut rydych yn bwriadu rhoi sylw dyledus i hawliau plant a phobl ifanc i**

**iechyd corfforol a meddyliol da yng nghyd-destun ymrwymiadau gofal iechyd y Rhaglen Lywodraethu (megis yr ymrwymiadau i ddarparu triniaethau a ohiriwyd yn sgil y pandemig, diwygio gofal sylfaenol, a blaenoriaethu buddsoddi mewn cymorth iechyd meddwl a threfniadau i ailgynllunio gwasanaethau o'r fath)?**

## ADOLYGU GWASANAETHAU HANFODOL I BLANT – MAWRTH-MAI 2021

Mewn llawer o ffyrdd, mae plant wedi bod yn wylwyr diniwed yn ystod argyfwng COVID-19 gan fod y pandemig wedi cael effaith anghymesur arnynt. Mae'r argyfwng wedi tarfu'n ddifrifol ar eu haddysg a'u datblygiad cymdeithasol ac maent wedi treulio cyfran helaeth o'u bywydau hyd yn hyn dan gyfyngiadau symud. Er mai effaith uniongyrchol fach y mae COVID-19 yn ei chael ar y boblogaeth bediatrig, mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar allu plant i gael gafael ar wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau hanfodol.

Mae'n hanfodol felly pan fydd Byrddau'n gorfod blaenoriaethu a gwneud dewisiadau a phenderfyniadau anodd, eu bod yn ystyried anghenion plant o fewn y prif egwyddorion moesegol, fel y mynegir yn fframwaith cyflawni Llywodraeth Cymru, 'Coronafeirws: gwerthoedd ac egwyddorion moesegol ar gyfer darparu gofal iechyd'. Ar ddiwedd 2020, aeth y Grŵp Llywio Gwasanaethau Hanfodol ati i gynnal sawl ymchwiliad manwl i feysydd penodol er mwyn nodi i ba raddau y cafodd gwasanaethau hanfodol eu cynnal yn ystod y pandemig.

Ymchwiliwyd i wasanaethau cardiaidd yn gyntaf. Ar ôl ystyried pwnc a oedd yn benodol i gyflwr, penderfynwyd y dylid ymchwilio i faes a oedd yn berthnasol i gyfran ehangach o'r boblogaeth nesaf. Felly penderfynodd y Grŵp Llywio y dylai'r ail adolygiad ystyried i ba raddau y cafodd gwasanaethau hanfodol i blant eu cynnal. Dewiswyd y casgliad hwn o wasanaethau er mwyn rhoi trosolwg o wasanaethau sy'n cwmpasu gwasanaethau ataliol a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion iechyd corfforol ac iechyd meddwl acíwt, gan gynnwys elfennau arbenigol/trydyddol. Roedd plant dan 18 oed yn rhan o gwmpas yr adolygiad. Yn benodol, ystyriodd yr ymchwiliad manwl sawl maes allweddol:

- Imiwneiddio a sgrinio
- Gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol ac arbenigol
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
- Diogelu

Drwy gydol y broses, gwnaed llawer o waith i gasglu safbwyntiau uniongyrchol gan blant am eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau iechyd yn ystod y pandemig. Mewn partneriaeth â'r sefydliad 'Plant yng Nghymru', cynhaliwyd arolwg ar-lein o blant a chynhaliwyd trafodaeth grŵp ffocws. Nod cyffredinol y gwaith hwn oedd ystyried barn a phrofiadau plant a phobl ifanc sydd wedi defnyddio, neu wedi ceisio defnyddio, gwasanaethau iechyd yn ystod y pandemig.

Nododd yr ymchwiliad manwl bryderon ym mhob maes a ystyriwyd a gwnaeth nifer o arsylwadau pwysig iawn mewn perthynas â'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar allu plant i gael gafael ar wasanaethau. Nododd hefyd, er bod lefel yr

afiachedd a'r marwolaethau uniongyrchol yn sgil COVID-19 yn is ymhlith plant o gymharu â grwpiau oedran eraill, mewn ffyrdd eraill, mae COVID-19 wedi cael effaith ehangach ddwys iawn ar fywydau plant. O ganlyniad, ysgrifennodd Andrew Goodall at fyrddau iechyd ar 26 Awst yn pwysleisio'r angen i sicrhau y caiff gwasanaethau plant eu cynrychioli'n llawn mewn rhagdybiaethau cynllunio lleol.

**CANLLAWIAU LLYWODRAETH CYMRU AR DREFNIADAU RHEOLI, TROSGLWYDDO AC ATEBOLRWYDD GWASANAETHAU GOFAL IECHYD PLANT A PHOBL IFANC PAN FYDDANT YN SYMUD O WASANAETHAU PLANT I WASANAETHAU OEDOLION**

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu canllawiau sy'n nodi'r ddarpariaeth ar gyfer trosglwyddo gofal iechyd o wasanaethau pediatrig i wasanaethau oedolion mewn modd priodol. Mae'r canllawiau yn canolbwyntio ar yr hyn y mae angen i wasanaethau iechyd ei wneud er mwyn sicrhau bod proses effeithiol, sydd wedi'i strwythuro'n dda, ar waith i ddiwallu anghenion gofal iechyd integredig plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc, ac i hyrwyddo ansawdd a diogelwch, mynediad, ymreolaeth a gofal effeithlon i sicrhau canlyniadau iechyd gwell.

Caiff fersiynau hawdd eu deall ac sy'n addas i bobl ifanc eu cynhyrchu a byddwn yn ceisio barn pobl ifanc wrth i'r rhain gael eu datblygu.

**RHAGLEN PLANT IACH CYMRU**

Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn nodi amrywiaeth gyffredinol o gysylltiadau allweddol rhwng teuluoedd sydd â phlant rhwng 0 a 7 oed ac ymwelwyr iechyd. Mae'n gymwys i bob teulu ledled Cymru, ni waeth beth fo'i anghenion. Mae'r cysylltiadau cyffredinol hyn yn cwmpasu tri maes ymyrryd: sgrinio, imiwneiddio, a monitro a chefnogi datblygiad plant.

Drwy gyflwyno set graidd o gysylltiadau cyffredinol ar gyfer Cymru gyfan, gall byrddau iechyd leihau'r posibilrwydd y bydd plant a theuluoedd yn colli'r cyfle i fanteisio ar effeithiau cadarnhaol rhaglen iechyd y cyhoedd ac ymyrraeth gynnar. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob bwrdd iechyd gynnig yr ystod lawn o gysylltiadau Rhaglen Plant Iach Cymru yn ddieithriad.

**LLAWFEDDYGAETH BEDIATRIG**

Mewn adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar i ddeall effaith COVID ar wasanaethau pediatrig, argymhellwyd y dylid ystyried datblygu fframwaith blaenoriaethu risgiau er mwyn cefnogi llawfeddygaeth bediatrig. Diben hyn yw adeiladu ar waith adnodd blaenoriaethu risgiau Coleg Brenhinol y Llawfeddygon a ddatblygwyd yn ystod y pandemig a helpu i greu model ar gyfer Cymru sy'n cysylltu llawdriniaethau arbenigol â thimau llawfeddygol lleol ar draws y byrddau iechyd.

Sefydlwyd grŵp dynodedig o lawfeddygon o bob rhan o GIG Cymru. Bydd y grŵp hwn yn gyfrifol am adolygu'r adnodd presennol ac ystyried pa elfennau ychwanegol sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r fframwaith ledled Cymru. Bydd y gwaith hwn yn rhan o'r prosiect ehangach i ymchwilio i ddull o fesur gofal wedi'i

gynllunio yn seiliedig ar flaenoriaethau clinigol, a gwella canlyniadau clinigol i'r eithaf.

Mae'r byrddau arbenigeddau llawfeddygol sy'n rhan o'r rhaglen gofal wedi'i gynllunio wedi ailbennu eu ffocws yn dilyn COVID ac maent nawr yn ymrwymedig i gynnwys llwybrau cenedlaethol sy'n benodol i wasanaethau pediatrig fel rhan o'u rhaglen. Mewn adolygiad diweddar a drafodwyd gan y bwrdd orthopedig, ystyriwyd y llwybr rhwng Bae Abertawe a Hywel Dda ar gyfer llawdriniaethau pediatrig ar yr asgwrn cefn.

Bydd y gwaith hwn yn cysylltu â Bwrdd Comisiynu Arbenigol Cymru a'r angen am rwydweithiau clinigol mewn byrddau iechyd unigol ond hefyd rhwng timau arbenigol a thimau lleol.

Darparwyd cronfeydd penodol ar gyfer gofal pediatrig fel rhan o'r cyllid adfer a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

## RHAGLEN TRAWSNEWID –CYMRU IACHACH

Cafodd y 40 o gamau gweithredu yn y Rhaglen Trawsnewid ar gyfer *Cymru Iachach* eu hadolygu ym mis Mawrth 2021 er mwyn cefnogi'r gwaith i sefydlogi ac adfer gwasanaethau yn dilyn COVID-19 ac i adlewyrchu blaenoriaethau sydd wedi dod i'r blaen o ganlyniad i'r pandemig. Fel rhan o'r adolygiad hwn, cyflwynwyd cam gweithredu newydd sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc:

- *Sicrhau bod ein trawsnewidiad i system o ddarpariaeth iechyd a gofal di-dor yn hyrwyddo mabwysiadu ymyriadau integredig ac effeithiol i blant ar lefel ehangach, gan arwain at fwy o ganlyniadau iechyd a lles cadarnhaol dros amser.*

## GOFALWYR DI-DÂL A CHYLLID AR GYFER SEIBIANNAU 2021-22

Ers dechrau'r pandemig, mae llawer o ofalwyr di-dâl yng Nghymru wedi bod yn ymdopi ar eu pen eu hunain heb gymorth gwasanaethau statudol na'u rhwydweithiau cymunedol a theuluol arferol. Yn anochel, mae'r diffyg cymorth hwn wedi effeithio ar eu llesiant corfforol a meddyliol eu hunain, ac mae'r cyfyngiadau symud presennol yn rhoi pwysau ychwanegol ar ofalwyr di-dâl sydd eisoes yn cael trafferth ymdopi.

Mewn arolwg o ofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn ystod haf 2020, sef “Cefnogaeth nid Cydymdeimlad”, nodwyd nad oedd 1 o bob 5 o ofalwyr ifanc (sef 20%) ac 1 o bob 3 o oedolion ifanc sy'n ofalwyr (sef 31%) yn gallu cymryd unrhyw egwyl o'u rôl ofalu. Mae diffyg seibiannau ac amser i ddadflino a gwneud y pethau y maent yn eu mwynhau yn parhau i gael effaith negyddol ar eu hiechyd meddyliol a chorfforol. https://carers.org/downloads/wales-pdfs/support-not-sympathy-welsh-language.pdf

Yn ystod 2021-22, rydym wedi dyrannu £3 miliwn i gynyddu gwasanaethau seibiant i ofalwyr di-dâl ledled Cymru a sicrhau y caiff gwasanaethau amrywiol eu darparu. I ddechrau, mae awdurdodau lleol wedi defnyddio'r cyllid i ateb y galw

cynyddol am seibiannau wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, rydym yn annog awdurdodau lleol i weithio gydag amrywiaeth o sectorau i ddatblygu dulliau gweithredu mwy arloesol, megis cronfa seibiannau byr. Er mwyn llywio'r gwaith hwn a nodi arferion da sydd â'r potensial i gael eu dyblygu ledled Cymru, gwnaethom gomisiynu Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac academyddion ym Mhrifysgol Abertawe a Phrifysgol Bangor i lunio adroddiad ar gynllun seibiannau.

Drwy ddatblygu dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar unigolion ac yn diwallu anghenion unigol, caiff yr holl ofalwyr di-dâl eu cefnogi i gael budd o'r cyllid hwn, gan gynnwys teuluoedd plant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, gofalwyr ifanc, a gofalwyr hŷn a all fod yn byw gyda'u cyflwr iechyd eu hunain hefyd.

Mae iechyd meddwl a llesiant gofalwyr di-dâl yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Gwnaethom roi £60,000 i sefydliad Gofalwyr Cymru yn 2020-21 i ddatblygu ei sesiynau 'Me Time' ar-lein sy'n canolbwyntio ar gymorth seicolegol a llesiant gofalwyr. Mae'r digwyddiadau llesiant a'r sesiynau ar-lein yn rhoi seibiant byr i ofalwyr o bob oed o'u rôl ofalu, yn ogystal â chanllawiau defnyddiol ar sut i reoli eu hiechyd meddwl a'u llesiant eu hunain. Gall gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr hefyd gael cymorth gan wasanaethau eu hawdurdod lleol i ofalwyr ifanc, llinell gymorth a gwefan MEIC, gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol a'r Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl i Bobl Ifanc cenedlaethol ar Hwb.

## PLANT A PHOBL IFANC SYDD Â PHROFIAD O FOD MEWN GOFAL

Rydym yn cydnabod y gall iechyd meddwl plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'r rhai sydd ar ffiniau gofal fod yn waeth na'u cyfoedion. Rydym yn darparu cyllid ychwanegol sy'n canolbwyntio ar gymorth ac ymyrraeth gynnar fel nad yw problemau iechyd meddwl yn gwaethygu. Pan fydd cryn anawsterau yn dod i'r amlwg, mae ein cyllid yn canolbwyntio ar hwyluso prosesau i isgyfeirio unigolion o ddarpariaeth lles ac iechyd meddwl ddiogel i gleifion mewnol.

## IECHYD MEDDWL

Mae ein Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl wedi cael ei ddiweddaru ers y pandemig, ac felly hefyd yr Asesiad cysylltiedig o'r Effaith ar Hawliau Plant, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i roi sylw dyledus i hawliau plant mewn ymrwymiadau polisi iechyd meddwl.

Byddwn yn parhau i roi argymhellion adroddiad y pwyllgor Cadernid Meddwl ar waith er mwyn sicrhau bod y newid sylweddol sydd ei angen o ran cymorth emosiynol ac iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael ei gyflawni.

Byddwn hefyd yn parhau i roi sylw dyledus i hawliau plant a phobl ifanc wrth inni ymgynghori ar ddeddfwriaeth i Gymru – er enghraifft, rheoliadau newydd a fydd yn cefnogi'r broses o roi Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 a'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid newydd ar waith.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-

Weinidogol ar ddull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant, fel rhan o ddull system gyfan sydd hefyd yn cydnabod effaith ehangach llesiant corfforol. Bydd y grŵp, sy'n cynnwys ystod eang o aelodau, yn sicrhau bod polisïau ac arferion ym mhob rhan o'r llywodraeth yn cefnogi iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol ymhlith plant a phobl ifanc, gan ddatblygu'r gwaith hwn mewn ffordd drawslywodraethol a thraws-sector a cheisio cyngor gan arbenigwyr yn y sector, plant, pobl ifanc ac eraill er mwyn sicrhau bod CCUHP wrth wraidd y gwaith hwn.

Er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn parhau i fod wrth wraidd y gwaith hwn, caiff ei gefnogi gan Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid.

## TYBACO

Rydym wrthi'n datblygu Strategaeth newydd Cymru ar Reoli Tybaco ar hyn o bryd. Bydd y strategaeth hon yn cynnwys ein nodau hirdymor i leihau nifer y bobl sy'n smygu ac atal pobl rhag dechrau smygu ledled Cymru.

Mae cefnogi plant a phobl ifanc i gael plentyndod di-fwg yn rhan allweddol o'n gweledigaeth i gael Cymru ddi-fwg.

Mae smygu yn effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc drwy gydol eu plentyndod, o feichiogrwydd i'r glasoed, a byddwn yn mynd i'r afael â hyn fel maes blaenoriaeth yn ein Strategaeth newydd.

Rydym am ganolbwyntio ar gynyddu cyfran y plant a'r bobl ifanc sy'n cael plentyndod di-fwg, gan leihau'r anghydraddoldebau mewn smygu a sicrhau bod dull system gyfan o gael Cymru ddi-fwg.

Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni cyntaf yn ystod yr hydref. Byddwn yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu i gefnogi'r ymgynghoriad a byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau ein bod yn clywed lleisiau plant a phobl ifanc yng Nghymru er mwyn helpu i lywio ein camau gweithredu.

## CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

Ar gam cynnar yn ein hymateb i'r pandemig, gwnaethom geisio sicrwydd gan bob Bwrdd Cynllunio Ardal ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau fod gwasanaethau a chymorth i blant a theuluoedd ar gael o hyd.

Mae pob rhan o'r llywodraeth yn gweithio i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael ag effaith COVID-19 ar ein plant a'n pobl ifanc a byddwn yn parhau i fonitro'r risg o niwed cynyddol i deuluoedd o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar fel y gellir atal niwed hirdymor cyn iddo ddigwydd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn buddsoddi £1.98m y flwyddyn yn Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru, ac mae'r pedwar heddlu yng Nghymru yn darparu arian cyfatebol. Fel rhan o'r rhaglen, bydd Swyddogion yr Heddlu yn mynd i ysgolion ac

yn cyflwyno gwersi ar amrywiaeth o feysydd. Mae'r rhaglen graidd yn cynnwys camddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig, bwlio, diogelwch ar-lein, secstio, camfanteisio'n rhywiol ar blant a chydsyniad, gan gyflwyno rhaglen gytbwys mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'n canolbwyntio 50% ar gyflwyno'r cynnwys craidd er mwyn diwallu anghenion disgyblion ac ysgolion, a 50% ar ymyriadau rhagweithiol ar gyfer diogelu a rheoli digwyddiadau.

Aeth yr Heddlu ati i adolygu'r Rhaglen hon ym mis Tachwedd 2019. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar hyn o bryd i roi argymhellion yr adolygiad ar waith a phennu sut y gallant ategu'r gwaith sy'n mynd rhagddo drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan, ac ychwanegu gwerth ato, er mwyn gwella llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr.

**GWASANAETHAU AWTISTIAETH A NIWRODDATBLYGIADOL**

Rhoddwyd sylw dyledus i hawliau plant a phobl ifanc yn ystod camau datblygu'r Cod Ymarfer. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar hawliau plant, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Cod ar 16 Gorffennaf. Gweithiwyd yn agos gyda'r Rhaglen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar y gwaith hwn, ac aethpwyd ati i fabwysiadu Dull Ysgol Gyfan. Bydd y gwaith hwn yn parhau tra bydd y Cod yn cael ei weithredu. Wrth ddrafftio'r Cod, rhoddwyd sylw dyledus hefyd i adroddiad 'Dim Drws Anghywir' y Comisiynydd Plant.

Mae'r Cod yn nodi'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a swyddogaethau gwasanaethau iechyd byrddau iechyd lleol a chyrff ymddiriedolaeth y GIG o ran yr ystod o wasanaethau a ddylai fod ar gael yn eu hardaloedd lleol i blant, pobl ifanc ac oedolion awtistig, eu teuluoedd a/neu eu gofalwyr, ac ansawdd y gwasanaethau hynny.

Mae adran 4 o'r Cod yn nodi rôl yr Hyrwyddwr Awtistiaeth. Bydd pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn penodi Hyrwyddwr Awtistiaeth a fydd yn codi ymwybyddiaeth ac yn sicrhau bod y Bwrdd yn rhoi sylw dyledus i'r materion sy'n wynebu plant ac oedolion awtistig, eu rhieni a'u gofalwyr.

Rydym eisoes yn gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i'w helpu i roi'r Cod ar waith, gan gynnwys rhoi grant bach (£4,000) i gefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith awtistiaeth o grwpiau rhanddeiliaid a fframwaith monitro. Bydd y grwpiau rhanddeiliaid hyn yn rhoi adborth ar y materion a wynebir gan blant awtistig, eu rhieni a'u gofalwyr.

**4. Sut y bydd lleisiau plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar eich penderfyniadau, fel yr argymhellwyd gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pumed Senedd.**

**CYNLLUN HAWLIAU PLANT**

Croesawais yr ymchwiliad eang a manwl i Hawliau Plant gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020. Roeddwn yn falch fy

mod wedi cynnwys nifer o argymhellion y Pwyllgor yn y Cynllun Hawliau Plant diwygiedig a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r Cynllun hwn yn nodi ein bwriad i ddatblygu model cyfranogiad er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd ystyrlon i fynegi eu barn ar holl feysydd polisi'r llywodraeth.

Rydym hefyd yn darparu cyllid blynyddol ar gyfer Plant yng Nghymru, sef corff ambarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn yn galluogi plant a phobl ifanc i fynegi eu barn i Weinidogion a'r sawl sy'n creu polisïau drwy raglen ‘Cymru Ifanc’ a gweithgarwch cyfranogol arall. Er enghraifft, bydd Plant yng Nghymru yn helpu Llywodraeth Cymru i gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu’r rheoliadau drafft a fydd yn cefnogi’r broses o roi’r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar waith.

Fy mwriad yw cyhoeddi'r Cynllun Hawliau Plant terfynol yn hydref 2021.

**<u>STRATEGAETH GOFALWYR DI-DÂL (Gofalwyr Ifanc ac Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr)</u>**

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirdymor i wella'r gydnabyddiaeth a'r cymorth a roddir i ofalwyr di-dâl yng Nghymru. Gwnaeth y pandemig gynyddu ein hymwybyddiaeth ymhellach ac mae ein Strategaeth newydd, a lansiwyd ym mis Mawrth 2021, yn ailbwysleisio'r ymrwymiad hwn ac yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod gofalwyr di-dâl o bob oed yn cael eu cefnogi'n fwy effeithiol ac yn gallu manteisio ar eu hawliau.

Yn dilyn gwaith ymgysylltu â gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc a'u cynrychiolwyr, gwnaethom ailwampio'r blaenoriaethau cenedlaethol presennol ac ychwanegu pedwaredd flaenoriaeth newydd yn canolbwyntio ar ofalwyr di-dâl mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'r pedair blaenoriaeth genedlaethol diwygiedig fel a ganlyn: *Adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl; Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth; Helpu i fyw yn ogystal â gofalu; Cefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle.*

Gan weithio gyda Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr a'r Grŵp Ymgysylltu â Gofalwyr, rydym wedi trefnu tri gweithgor amser cyfyngedig i gydgynhyrchu cynllun cyflawni ategol, a Siarter Gofalwyr newydd. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r cynllun cyflawni, a drafft o'r siarter newydd yn hydref 2021. Bydd y cynllun yn nodi camau gweithredu, amserlenni a mesurau clir ar gyfer monitro cynnydd pob un o'r pedair blaenoriaeth genedlaethol.

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn aelod o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr, gan roi mewnbwn ar lefel strategol mewn perthynas â hawliau ac anghenion plant a phobl ifanc sy'n ofalwyr. Rydym hefyd yn ariannu Plant yng Nghymru (£14,000 yn 2021-22) i gynnal y Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc, ac rydym yn gweithio gyda'r sefydliad i gynnwys mwy o ofalwyr ifanc yn uniongyrchol mewn trafodaethau i ddatblygu cynnwys y cynllun cyflawni strategol a'r Siarter Gofalwyr.

Caiff lleisiau gofalwyr ifanc eu cynrychioli gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru

hefyd sydd â Chyngor Ieuenctid, a thrwy gyfarfodydd gyda gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr. Er enghraifft, ar Ddiwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc ym mis Mawrth 2021, cyfarfu'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol â grŵp o ofalwyr ifanc, a'i chyd-Weinidogion o Lywodraeth yr Alban, i drafod materion sy'n effeithio ar ofalwyr ifanc a mesurau i'w cefnogi.

## PLANT A PHOBL IFANC SYDD Â PHROFIAD O FOD MEWN GOFAL

Lluniwyd ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu gan leisiau plant a phobl ifanc. Er enghraifft, mae plant a phobl ifanc wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo bod sefydliadau mawr, preifat yn camfanteisio arnynt drwy wneud elw o'u profiadau uniongyrchol o fod mewn gofal.

Wrth ddatblygu ymrwymiadau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, bydd y strwythurau llywodraethu sydd ar waith, a'r rhai sydd i'w cwblhau, yn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn parhau i allu mynegi barn ar y broses o ddatblygu a gweithredu polisïau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ac sy'n cael eu harwain ganddynt, megis Voices from Care Cymru, ymhlith yr aelodau yn ein grwpiau gweithredu.

Byddwn hefyd yn parhau, er enghraifft gyda'r gwaith rhianta corfforaethol ar ddatblygu siarter, i gynnal gweithdai lle gall pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal wneud sylwadau a dylanwadu ar y broses o roi cynigion polisi ar waith.

## IECHYD MEDDWL

Er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn parhau i fod wrth wraidd y penderfyniadau a wneir ynghylch polisïau ac arferion sy’n cefnogi iechyd emosiynol a meddyliol, caiff y Dull System Gyfan ar gyfer plant a phobl ifanc ei gefnogi gan Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid.

### Diben y grŵp rhanddeiliaid ieuenctid

Diben y grŵp hwn yw:

- Cynnig profiad uniongyrchol o gymorth iechyd meddwl a llesiant i blant a phobl ifanc
- Rhoi cyngor i’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ei raglen waith
- Cydgynhyrchu polisïau gyda Llywodraeth Cymru a Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc
- Herio’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn parhau i fod wrth wraidd ei holl waith

Bydd swyddogion Polisi Iechyd Meddwl hefyd yn gweithio’n agos gyda Chanolfan Wolfson a **Grŵp Cynghori Ieuenctid Canolfan Wolfson**. Mae Canolfan Wolfson am roi profiadau a lleisiau pobl ifanc wrth wraidd ei gwaith, gan recriwtio pobl ifanc 14-25 oed sydd â phrofiad uniongyrchol o broblemau iechyd meddwl i ymuno â'r Grŵp Cynghori Ieuenctid newydd.

Bydd yr aelodau yn:

- Helpu i lywio gwaith y Ganolfan drwy gynghori ar y cwestiynau ymchwil sy'n bwysig i bobl ifanc;
- Cynghori ar y ffordd y mae Wolfson yn gwneud gwaith ymchwil;
- Helpu i ddeall yr hyn y mae canfyddiadau gwaith ymchwil yn ei olygu i bobl ifanc;
- Awgrymu sut y gellid defnyddio'r canfyddiadau i wella'r hyn sy'n digwydd mewn bywyd go iawn i bobl ifanc sydd â phrofiad uniongyrchol o broblemau iechyd meddwl.

**GORDEWDRA YMHLITH PLANT**

Rydym yn ymgysylltu â phlant a theuluoedd drwy gyflwyno'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, gan gynnwys trafodaethau ar ddylunio rhaglenni. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar gynnig ysgolion egnïol dyddiol, lle byddwn yn llunio ymgynghoriad penodol â phlant i ddatblygu'r dull gweithredu.

Mae Llysgennad Pwysau Iach ar gyfer Pobl Ifanc wedi cael ei benodi sy'n ymgysylltu â phlant ac yn gweithio ar draws amrywiaeth o rwydweithiau i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn glir yn y broses gyflwyno.

**CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU**

Adolygwyd Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022 mewn ymateb i COVID-19 ac mae camau gweithredu newydd wedi cael eu cynnwys i adlewyrchu'r gwaith a wnaed yn ystod y pandemig ac, yn benodol, i wynebu'r heriau newydd sydd o'n blaenau.

Mae'r heriau hyn yn cynnwys sicrhau y caiff adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau ei dderbyn drwy ystyried canfyddiadau'r astudiaeth o effaith COVID-19 a arweinwyd gan gymheiriaid, a pharhau i gynnal ymchwil defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â thriniaeth a chymorth yn ystod pandemig COVID-19 a fydd, yn ei dro, yn dylanwadu ar arferion yn y dyfodol o ran diwallu anghenion.

Yn unol â hyn, mae gan bob Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau ddulliau i gefnogi cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys pobl ifanc, mewn perthynas â chynllun gwasanaethau a'r ffordd y cânt eu darparu. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch i bob person sydd â nodweddion gwarchodedig. Ar ddechrau 2022, byddwn yn ymgynghori ar Fframwaith Trin Achosion o Gamddefnyddio Sylweddau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a bydd hyn yn cynnwys sicrhau y caiff barn plant a phobl ifanc ei hystyried yn llawn.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i adolygu'r camau gweithredu yn y Cynllun er mwyn eu hasesu yn erbyn y grwpiau hynny y mae'n dod i'r amlwg bod COVID-19 wedi cael yr effaith fwyaf arnynt (e.e. pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol/pobl ar incwm isel/pobl ddi-waith/pobl sydd mewn dyled/plant a phobl ifanc (gan gynnwys

y rhai sydd yn y system gyfiawnder)).

**GWASANAETHAU AWTISTIAETH A NIWRODDATBLYGIADOL**

Mae'r gwaith o ddatblygu polisïau ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol i blant, gan gynnwys gwasanaethau awtistiaeth i blant a phobl ifanc, yn mynd rhagddo fel rhan o Raglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc 2. Mae'r rhaglen, sy'n gweithio tuag at wella'r gwasanaethau llesiant emosiynol ac iechyd meddwl sydd ar gael i blant a phobl ifanc yng Nghymru, yn canolbwyntio ar dri maes:

- Help Cynnar a Gwell Cymorth
- Gwasanaethau Niwroddatblygiadol
- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Mae'r rhaglen yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys y Comisiynydd Plant, Senedd Ieuenctid Cymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Chynghorau Ieuenctid er mwyn sicrhau bod gweithgarwch ymgysylltu a chydgynhyrchu yn mynd rhagddo a bod pobl yn gwrando ar lais plant a phobl ifanc ac yn ei ystyried.

Mae'r rhaglen hefyd wedi gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflwyno fframwaith cynllunio NYTH, gan osod plant wrth wraidd y penderfyniadau a wneir a sicrhau na fydd unrhyw ddrysau anghywir pan fydd teuluoedd yn ceisio cymorth.

Hefyd, mae gan ein Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, a gynhelir ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, adran ddynodedig ar ei wefan sy'n rhoi gwybodaeth i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr. Ymhlith y rhaglenni a ddatblygwyd yn ddiweddar mae *Teifi a'i Ffrindiau*.

**5. Deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth sylweddol sydd wedi'i chynllunio o fewn portffolio'r Pwyllgor, i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau ar gyfer rhoi Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ar waith a chadarnhau'r amserlen ar gyfer pryd y daw adran 1—sy'n diddymu'r amddiffyniad cosb resymol o'r gyfraith gyffredin—i rym yng Nghymru.**

**CEFNDIR**

Ym mis Mawrth 2020, cafodd Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ("Deddf Plant Cymru") Gydsyniad Brenhinol. Pan ddaw Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru i rym ar 21 Mawrth 2022, ni fydd yr amddiffyniad cosb resymol ar gael yng Nghymru mwyach i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid a'r rhai sy'n gweithredu *in loco parentis* sy'n wynebu cyhuddiad o ymosod a churo yn erbyn plentyn yn eu gofal.

Nod Deddf Plant Cymru yw helpu i amddiffyn hawliau plant drwy wahardd rhieni a'r rhai sy'n gweithredu *in loco parentis* rhag cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, gan gynnwys ymwelwyr â Chymru. Effaith fwriadedig y Ddeddf, ynghyd ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth a chymorth i rieni, yw lleihau'r defnydd o gosbi plant

yn gorfforol ymhellach, a'r graddau y caiff hyn ei oddef, yng Nghymru.

Y pwyslais ar hyn o bryd yw sicrhau y caiff Deddf Plant Cymru ei rhoi ar waith mewn ffordd ymarferol. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol drwy Grŵp Gweithredu Strategol a thri grŵp gorchwyl a gorffen. Bydd y grwpiau hyn yn ystyried sut i fonitro effaith y Ddeddf; a oes angen rhoi unrhyw brosesau, canllawiau neu hyfforddiant ar waith ar ôl diddymu'r amddiffyniad; a pha gymorth ychwanegol fydd ei angen ar rieni, os o gwbl, gan gynnwys ar y cyd â Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys.

## BLAENORIAETHAU CYFREDOL

### Newid ymddygiad

Rydym yn ariannu Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth rhianta (e.e. Dechrau'n Deg a'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf) ac ymgyrch Magu Plant. Rhowch amser iddo. sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor mewn perthynas â dulliau magu plant cadarnhaol ac opsiynau amgen yn lle cosbau corfforol.

Rydym yn gweithio gyda'r Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta, un o'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, i wneud y canlynol:

- dadansoddi bylchau posibl mewn darpariaeth magu plant ledled Cymru a'u llenwi er mwyn cefnogi'r Ddeddf;
- asesu'r gweithlu rhianta;
- adolygu rhianta cyfredol. Sicrhau bod gwybodaeth a chyngor Rhowch amser iddo yn cyd-fynd â negeseuon y Ddeddf; ac ehangu'r ymgyrch drwy gynnwys cyngor priodol i rieni sydd â phlant hyd at 18 oed.

Rydym yn gweithio gyda'r Heddlu ac eraill i gytuno ar opsiwn ar gyfer darparu cymorth rhianta wedi'i deilwra y gall yr Heddlu ei gynnig fel amod Datrysiad y Tu Allan i'r Llys. Caiff y cymorth rhianta wedi'i deilwra ei ddarparu gan awdurdodau lleol. Bydd yn annog ac yn cefnogi rhieni i fabwysiadu technegau rhianta cadarnhaol gan ei gwneud yn gwbl glir i bawb bod cosbi plant yn gorfforol yn annerbyniol dan unrhyw amgylchiadau.

Mae Gweinidogion wedi cytuno i ddarparu:

- Hyd at £500,000 o gyllid yn ystod y flwyddyn ariannol hon (2021/22) i awdurdodau lleol er mwyn paratoi a darparu cymorth rhianta wedi'i deilwra mewn perthynas â Deddf Plant Cymru; a
- Chyllid dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 22/23, 23/24 a 24/25 er mwyn parhau i ddarparu'r cymorth rhianta wedi'i deilwra. Mae'r cyllid dangosol yn gyfwerth ag £810,000 y flwyddyn. Caiff cyfran gymesur o'r cyllid blynyddol ei ddarparu i bob awdurdod lleol ledled Cymru.

Mae canllawiau wedi cael eu llunio a'u dosbarthu i amrywiaeth o randdeiliaid, gan ofyn am adborth erbyn 30 Medi. Bwriedir i'r canllawiau:

- gefnogi awdurdodau lleol i ddarparu cymorth rhianta wedi'i deilwra ar

gyfer Deddf Plant Cymru; a
- rhoi eglurder i'r Heddlu, Timau Troseddwyr Ifanc ac awdurdodau lleol ar rôl y partneriaid gwahanol a fydd yn cymryd rhan.

**Codi Ymwybyddiaeth**

O dan Ddeddf Plant Cymru, mae dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newid yn y gyfraith cyn iddo ddod i rym ym mis Mawrth 2022.

Cytunwyd ar gyllid ar gyfer ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Bydd yr ymgyrch yn cynnwys hysbysebion ar y teledu, radio a llwyfannau digidol. Mae tudalen we ar gyfer yr ymgyrch Stopio Cosbi Corfforol yng Nghymru, ynghyd â nifer o adnoddau a gwybodaeth gefndirol.

Rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021, crëwyd hysbysebion digidol penodol ar gyfer cynulleidfaoedd y nodwyd bod ganddynt lefel isel o ymwybyddiaeth o'r newid mewn deddfwriaeth: Grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol; Pobl ifanc 16-34 oed sy'n byw yng Ngogledd Cymru. Yn ogystal, mae fan hysbysebu Stopio Cosbi Corfforol wedi ymweld â 40 o gyrchfannau twristiaeth ledled Cymru yn ystod gwyliau'r haf.  Bwriedir i'r fan godi ymwybyddiaeth trigolion lleol o'r newid yn y gyfraith sydd ar ddod, ynghyd â phobl sy'n ymweld â Chymru.

O fis Medi 2021, caiff ymgyrch hysbysebu genedlaethol ar gyfer y cyfryngau torfol – *Sŵn Newid* – ei lansio ar y teledu, ar y radio, mewn deunyddiau print, ar lwyfannau digidol ac yn yr awyr agored.

Rydym yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda rhieni a phlant yn gwybod am y newid yn y gyfraith ac yn barod amdano. Rydym wedi cynhyrchu taflenni i sectorau penodol ac rydym yn llunio Canllaw Arferion drafft a fydd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ymatebion diogelu lle caiff plentyn ei gosbi'n gorfforol. Caiff ei ddefnyddio ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Rydym yn ystyried y ffordd fwyaf priodol o godi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o'r newid yn y gyfraith.

**Mesur Effaith**

Mae Deddf Plant Cymru yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad ar ôl i'r newid ddod i rym. Mae hyn yn cynnwys monitro'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus, lefelau ymwybyddiaeth a newid mewn ymddygiad.

Cytunwyd ar ddull o gasglu data gan yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. Bydd gennym ddata ar gyfer llinell sylfaen cyn i'r Ddeddf ddod i rym a byddwn yn parhau i gasglu data er mwyn mesur effaith ar ôl iddi ddod i rym.

Er mwyn olrhain lefelau ymwybyddiaeth ac agweddau, caiff arolwg blynyddol ei gynnal. Cynhaliwyd yr arolwg diweddaraf ym mis Tachwedd 2020 (cafodd yr

adroddiad ei gyhoeddi ar 23 Medi 2021) ac, o ganlyniad i'r pandemig, cafodd ei gynnal ar-lein. Dangoswyd bod newid y math o arolwg wedi effeithio ar ymatebion mewn perthynas ag agweddau ac ymddygiadau. Felly, dylid cymryd gofal wrth ddehongli unrhyw newidiadau yn y canlyniadau o gymharu ag arolygon a gynhaliwyd cyn i'r arolwg fynd ar-lein a chyn yr adroddiad cyfredol; efallai mai'r newid hwn yn y dull cyflwyno sy'n gyfrifol am unrhyw newid, yn gyfan gwbl neu'n rhannol (os o gwbl). Caiff y mater hwn ei adolygu'n barhaus mewn perthynas â chasgliadau data yn y dyfodol a gwaith adrodd dilynol. Bydd yr arolygon yn parhau i gynnig gwybodaeth ddefnyddiol am agweddau ac ymwybyddiaeth cyn i'r ddeddf ddod i rym ac ar ôl hynny.

## PLANT A PHOBL IFANC SYDD Â PHROFIAD O FOD MEWN GOFAL

Er mwyn datblygu ein hymrwymiad i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal, i ddechrau rydym am ddefnyddio ein fframwaith deddfwriaethol cryf presennol. Os nad yw'n bosibl gweithredu'r newidiadau rydym am eu gweld o'r fframwaith hwnnw, byddwn yn ystyried a oes angen deddfwriaeth ychwanegol neu a oes angen cryfhau neu fireinio'r fframwaith presennol.

Fel rhan o'r gwaith ar rianta corfforaethol, caiff canllawiau statudol eu datblygu, gan gynnwys pennod benodol yng Nghod Ymarfer Rhan 6, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a rheoliadau eraill er mwyn cryfhau trefniadau partneriaeth â'r sector iechyd a chyrff cyhoeddus eraill.

Rydym yn ymrwymedig i ddeddfu yn ystod tymor y Senedd hon er mwyn sicrhau bod gan bob person ifanc sy'n gadael gofal Gynghorydd Personol nes y bydd yn 25 oed. Gallwn wneud y newid hwn drwy Reoliadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae trefniadau amserlennu a blaenoriaethu is-ddeddfwriaeth yn cael eu hystyried ar gyfer tymor y Senedd hon ar hyn o bryd. Rydym yn rhagweld y caiff hyn ei ddatblygu yn 2022/23.

Rydym wrthi'n ymchwilio i opsiynau ar hyn o bryd i ystyried pa ddiwygiadau y gall fod angen eu gwneud i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) er mwyn cryfhau prosesau arolygu a rheoleiddio darpariaeth gofal a llety ar gyfer plant a phobl ifanc dan 18 oed nad yw'n rhan o gylch gwaith y Ddeddf ar hyn o bryd.

## CYNIGION DEDDFWRIAETHOL ERAILL

Rhoddir ystyriaeth i'r ymateb i'r ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth Cymru ar y papur gwyn (gweler: Gwella trefniadau gofal cymdeithasol a gwaith partneriaeth | LLYW.CYMRU), a pha ddeddfwriaeth y gallai fod angen ei datblygu o ganlyniad. Yn ogystal, mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried goblygiadau deddfwriaethol posibl ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ym maes gofal cymdeithasol sy'n berthnasol i blant, er enghraifft y rhai sy'n ymwneud â dileu elw preifat o rai mathau o wasanaethau gofal cymdeithasol i blant.

Bydd y Gweinidogion yn rhoi rhagor o wybodaeth i Aelodau wrth i'r ystyriaethau hyn gael eu datblygu ymhellach.

Eitem 7.1

**CYPE(6)-03-21 – Papur i'w nodi 1**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**—**
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Elin Jones AS

Llywydd

Dyddiad: 14 Medi 2021

Pwnc: Slotiau ychwanegol ar gyfer cyfarfodydd

Annwyl Elin,

Rydym yn dymuno gwneud cais am slotiau ychwanegol ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor. Rydym am gwrdd yn ystod y ddwy wythnos warchodedig, ond nid oes angen slotiau diwrnod llawn arnom. Ym mis Hydref, rydym am wneud gwaith cynllunio strategol. Ni fydd modd gwneud hyn o fewn y slotiau a drefnwyd ar ein cyfer, gan fod rhaid inni gynnal sesiynau craffu gweinidogol yn ystod ein dau gyfarfod cyntaf. Ym mis Rhagfyr, rydym yn bwriadu cynnal gwrandawiad cyn penodi ar gyfer Comisiynydd Plant nesaf Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai dim ond yn ystod yr wythnos warchodedig y bydd cyfle inni gynnal y gwrandawiad hwn o dan yr amserlen.

Rwyf hefyd am dynnu sylw at y ffaith ein bod yn disgwyl y bydd Bil yn cael ei gyfeirio atom ar ryw adeg yn ystod tymor yr hydref. Unwaith y bydd yr amserlen ar gyfer y broses hon yn fwy clir, mae'n bosibl y bydd angen inni ofyn am slotiau ychwanegol ar gyfer cyfarfodydd er mwyn inni wneud y gwaith craffu hwn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'n glir a fydd angen i ni wneud hyn, na pha bryd. Rwy'n gobeithio amlinellu unrhyw geisiadau pellach pan fyddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth gennych ynghylch yr amserlen arfaethedig ar gyfer deddfwriaeth.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

CYPE(6)-03- 21 - Papur i'w nodi 2

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Dyddiad | Date: 24 Medi 2021

Pwnc | Subject: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

Annwyl Jeremy

Trafodwyd y Memorandwm hwn yn ein cyfarfod ar 23 Medi 2021. Fel y byddwch yn cofio, gwnaethom nodi y byddem yn ysgrifennu i geisio eglurder ynghylch nifer o faterion. Rydym hefyd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg (mae copi ynghlwm.)

Gan fod yn rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm hwn erbyn 21 Hydref byddem yn gwerthfawrogi ymateb cyn gynted â phosibl, a dim hwyrach na dydd Gwener 1 Hydref, er mwyn ein galluogi i'w ystyried yn ein cyfarfod ar 7 Hydref.

*Cymalau 1 (Cynlluniau gwella sgiliau lleol) a 4 (dehongli)*

Mae'r Memorandwm yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn argymell y dylid rhoi cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y ddau gymal hyn.

A allwch amlinellu pa welliannau y byddai Llywodraeth Cymru am eu gwneud i bob un o'r darpariaethau hyn er mwyn eich galluogi i argymell cydsyniad? A allwch hefyd amlinellu'r trafodaethau rydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chael y gwelliannau yr ydych yn eu ceisio, ac unrhyw ymateb yr ydych wedi'i gael?

*Cymal 14 (Cefnogaeth ar gyfer dysgu gydol oes)*

Mae'r Memorandwm yn nodi y bydd yr addasiadau y bydd cymal 14 yn eu gwneud i adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 yn dwyn ymlaen i ddarpariaethau sy'n arferadwy gan yr



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Ysgrifennydd Gwladol (ar yr un pryd â Gweinidogion Cymru) mewn perthynas â Chymru ac felly maent yn welliannau mewn perthynas â materion datganoledig yng Nghymru. Mae hefyd yn nodi bod Llywodraeth y DU yn bwriadu gwneud rheoliadau yn y dyfodol sy'n gweithredu'r Hawl i Fenthyciad Gydol Oes a bydd yn dibynnu ar swyddogaethau diwygiedig yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 at y diben hwn.  Nid yw'r Memorandwm yn nodi o ble y daeth y wybodaeth hon am fwriadau Llywodraeth y DU. A allwch egluro o ble y daeth y wybodaeth hon?

Nid oes unrhyw beth yn y Bil i nodi y bydd yr addasiadau i adran 22 o Ddeddf 1998 yn berthnasol dim ond pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn eu harfer. Nid yw'r Memorandwm yn egluro'r safbwynt ac nid oes ganddo fanylion ynghylch pam nad yw addasiadau a wneir o dan y cymal hwn yn ymwneud yn benodol â swyddogaethau Gweinidogion Cymru. A allwch ddarparu'r eglurder hwn? Os yw pwerau Gweinidogion Cymru yn cael eu newid gan yr addasiadau i adran 22, a allwch gadarnhau sut y cânt eu newid ac a oes gan Weinidogion Cymru unrhyw fwriad i ddefnyddio'r pwerau hyn sydd wedi'u haddasu ac, os felly, at ba ddiben?  A allech hefyd gadarnhau, os cytunir ar y newidiadau, y bydd gennych yr un pwerau â'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chyllid myfyrwyr? Bydd y wybodaeth hon yn ein galluogi i benderfynu a ddylid argymell yn ein hadroddiad i'r Senedd y dylid rhoi cydsyniad i gymal 14.

*Cymalau ychwanegol*

*Cymal 18 (Rhestr o ddarparwyr perthnasol)*

Mae cymal 18 o'r Bil yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw rhestr o 'ddarparwyr perthnasol' mewn perthynas ag 'addysg neu hyfforddiant perthnasol' sy'n bodloni rhai amodau, i'w nodi yn y rheoliadau. Nid oes unrhyw beth ar wyneb y Bil i nodi na all darparwr o Gymru fod yn 'ddarparwr perthnasol'. Yna mae Cymal 18(3) yn nodi'r hyn a olygir gan 'addysg neu hyfforddiant perthnasol', eto nid oes unrhyw beth ar wyneb y Bil sy'n nodi bod yn rhaid darparu addysg neu hyfforddiant o'r fath yn Lloegr yn unig. Nid oes unrhyw beth yng nghymal 18 ychwaith sy'n cyfyngu ei gymhwysiad i Loegr yn unig. A allwch nodi pam nad ydych yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar y cymal hwn?

*Cymal 25 (Sefydliadau yn y sector addysg bellach: gweithdrefn ar gyfer dynodi)*

Mae'r cymal hwn yn diwygio Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae'n newid y mecanwaith y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei ddefnyddio i ddynodi sefydliadau addysgol yn Lloegr fel rhai sy'n dod o fewn y sector addysg bellach statudol. Mae cymal 25(2) yn gwneud darpariaeth i egluro'r awdurdod priodol i wneud gorchmynion dynodi mewn perthynas â sefydliadau addysgol yng Nghymru. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil hefyd yn nodi bod y cymal hwn yn berthnasol i Gymru; ac y byddai'r ddarpariaeth gyfatebol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Yn sgil hyn, a allwch amlinellu pam nad yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal hwn?

*Oedi wrth osod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol*

Mae Rheol Sefydlog 29.2(i) yn ei gwneud yn ofynnol i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod o fewn pythefnos ar ôl cyflwyno'r Bil fel arfer. Yn yr achos hwn, bu oedi o dros saith wythnos rhwng cyflwyno'r Bil, a'r Memorandwm yn cael ei osod. A allwch amlinellu pam y bu cymaint o oedi?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Amg: Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**CYPE(6)-03-21 – Papur i'w nodi 3**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**–**
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Yr Gwir Anrhydeddus Nadhim Zahawi AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg

Dyddiad | Date: 24 Medi 2021

Pwnc | Subject: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

Rwy'n ysgrifennu ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n bwyllgor trawsbleidiol yn Senedd Cymru. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 wedi'i gyfeirio atom i graffu arno.

Mae gennym amser cyfyngedig ar gael i graffu ar y Memorandwm hwn; a rhaid cyflwyno adroddiad erbyn 22 Hydref. Felly byddem yn gwerthfawrogi ymateb cyflym i'n cais am wybodaeth, ac yn ddelfrydol mewn pryd i'w ystyried yn ein cyfarfod nesaf ddydd Iau 7 Hydref.

Rwyf wedi atodi copi o Femorandwm Llywodraeth Cymru er gwybodaeth i chi. Rydym yn ymwybodol mai dim ond ar gyfer cymal 4 y mae Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad y Senedd. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm yn ceisio barn y Senedd ar dri chymal (1, 4 a 14.) Felly rydym wedi ystyried y tri chymal.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg ac Addysg ynghylch y Memorandwm hwn. Atodir copi er gwybodaeth i chi.

*Cymalau 1 (Cynlluniau gwella sgiliau lleol) a 4 (dehongli)*

Mae'r Memorandwm yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn argymell y dylid rhoi cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y ddau gymal hyn gan eu bod yn credu y gallai hyn arwain at osod dyletswyddau ar ddarparwyr Cymru. A ydych yn cytuno â'r dadansoddiad hwn?



Senedd Cymru
Welsh Parliament

A allwch amlinellu pa drafodaethau rydych chi, eich rhagflaenydd neu'ch swyddogion wedi'u cael gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cymalau hyn, a pha welliannau y maent wedi'u ceisio er mwyn eu galluogi i argymell bod y Senedd yn cymeradwyo cydsyniad deddfwriaethol. Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe byddech yn cadarnhau a ydych yn ymwybodol o unrhyw fwriad i gyflwyno gwelliannau i'r Bil i adlewyrchu sylwadau Llywodraeth Cymru?

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y llythyr hwn, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Amg: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

Llythyr at Weinidog y Gymraeg ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

CYPE(6)-03-21 – Papur i'w nodi 4

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**—**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
**—**
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

21 Medi 2021

Annwyl Jayne

**Y DU/Periw: Cytuniad ar Gydnabod Graddau ar y Cyd**

Byddwch yn gwybod mai y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ein cyfarfod ar 13 Medi 2021 gwnaethom ystyried y DU/Periw: Cytuniad ar Gydnabod Graddau ar y Cyd.

Diben y cytuniad yw cryfhau'r cydweithrediad yn y sector addysg a hyrwyddo symudedd academaidd a symudedd proffesiynol dwyochrog, drwy gydnabod a dilysu graddau a roddir gan sefydliadau addysg uwch awdurdodedig a swyddogol pob ochr. Y graddau yn y DU a gwmpesir yw'r radd Baglor, y radd Meistr a Doethuriaethau.

Yn ystod ein hystyriaeth o'r cytuniad hwn, nodwyd nifer o faterion y gallai'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fod am wybod amdanynt o gofio beth yw cylch gwaith y Pwyllgor:

– nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hasesiad eto nac wedi darparu gwybodaeth am effaith y cytuniad; a

– gosodwyd y cytundeb yn ystod hynt Bil Cymwysterau Proffesiynol Llywodraeth y DU, y gofynnwyd am gydsyniad y Senedd ar ei gyfer. Yn ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai'r Senedd atal ei chydsyniad i'r Bil. Un o'r rhesymau a ddarperir yw bod Llywodraeth y DU wedi methu â chadarnhau wrth Lywodraeth Cymru pa gymwysterau addysgol sydd o fewn cwmpas y Bil, fel cymwysterau addysg bellach.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**CYPE(6)-03-21 – Papur i'w nodi 5**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

21 Medi 2021

Annwyl Jayne

**Confensiwn Byd-eang UNESCO ar Gydnabod Cymwysterau sy'n ymwneud ag Addysg Uwch**

Byddwch yn gwybod mai y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ein cyfarfod ar 13 Medi 2021 gwnaethom ystyried Confensiwn Byd-eang UNESCO ar Gydnabod Cymwysterau sy'n ymwneud ag Addysg Uwch.

Bydd y Confensiwn yn hwyluso symudedd academaidd a symudedd proffesiynol ymhlith aelod-wladwriaethau drwy gydnabod cymwysterau a gafwyd mewn aelod-wladwriaethau eraill, drwy ddarparu fframwaith byd-eang ar gyfer cydnabod cymwysterau addysg uwch a chymwysterau sy'n rhoi mynediad at addysg uwch. Hwn yw cytuniad cyntaf y Cenhedloedd Unedig ar addysg uwch sy'n rhwymo mewn cyfraith.

Wrth i ni ystyried y Confensiwn hwn, nodwyd nifer o faterion y gallai'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fod am wybod amdanynt o ystyried cylch gwaith y Pwyllgor:

> nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hasesiad eto nac wedi darparu gwybodaeth am ei heffaith, ac nid yw ychwaith wedi cadarnhau a yw trefniadau rhynglywodraethol ar gyfer cynrychiolaeth y DU wedi'u cwblhau ar gyfer Cynhadledd Rynglywodraethol y Confensiwn (sydd i'w chynnal bob dwy flynedd);



Senedd Cymru
Welsh Parliament

gosodwyd y cytundeb yn ystod hynt **Bil Cymwysterau Proffesiynol** Llywodraeth y DU, y gofynnwyd am gydsyniad y Senedd ar ei gyfer. Yn ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai'r Senedd atal ei chydsyniad i'r Bil. Un o'r rhesymau a ddarperir yw bod Llywodraeth y DU wedi methu â chadarnhau wrth Lywodraeth Cymru pa gymwysterau addysgol sydd o fewn cwmpas y Bil, fel cymwysterau addysg bellach.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd